Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH (CYLLIDEB)** | **THE EXECUTIVE (BUDGET)** |
| **DYDD LLUN 12 TACHWEDD 2018 10.00 o'r gloch** | **MONDAY 12 NOVEMBER 2018 10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 15 Hydref, 2018 (Arbennig)
- 22 Hydref, 2018 (Arbennig)

**4** **CYNLLUN YMGYNGHORI CYLLIDEB 2019/20** (Tudalennau 9 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

**5** **PREMIYMAU'R DRETH GYNGOR - AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG TYMOR HIR (ADOLYGIAD O'R FLWYDDYN GYNTAF)** (Tudalennau 17 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**6** **CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2019/20** (Tudalennau 41 - 58)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **CYLLIDEB CYFALAF 2019/20** (Tudalennau 59 - 74)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 15 Hydref, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Richard Dew, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G.Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) / Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 2)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Carwyn Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Lewis Davies, Glyn Haynes, Eric Jones, Dylan Rees, Margaret M. Roberts |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2. STRATEGAETH ADDYSG CYNGOR SIR YNYS MÔN – MODERNEIDDIO YSGOLION (DIWEDDARIAD 2018)**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Dysgu a oedd yn cynnwys diweddariad ar Strategaeth Addysg Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid, ers cyhoeddi'r strategaeth wreiddiol yn 2013, bod yr Awdurdod wedi cydweithio â Phenaethiaid ysgolion ac Aelodau Etholedig er mwyn moderneiddio'r stoc ysgolion ar yr Ynys a hynny drwy gyfuno 10 o ysgolion cynradd llai ac adeiladu ysgolion 21ain Ganrif mewn tair ardal o fewn Band A gyda'r ddiweddaraf i agor ym Mawrth, 2019. Erbyn diwedd rhaglen Band A ym mis Ebrill, 2019 bydd dros 10% o blant ysgol gynradd Ynys Môn yn derbyn eu haddysg mewn adeiladau'r 21ain Ganrif a bydd nifer y lleoedd gwag yn ysgolion cynradd Ynys Môn wedi lleihau 10% - gostyngiad o dros 17% dros chwe mlynedd. Yn y sector uwchradd, mae'r gostyngiad yn niferoedd disgyblion a'r cynnydd mewn lleoedd gwag ynghyd â'r toriadau ariannol wedi golygu heriau cyllidebol sylweddol ar draws y sector a bydd yn debygol o barhau neu hyd yn oed waethygu dros y blynyddoedd nesaf. O ganlyniad, ac oherwydd rhaglen cyni ariannol parhaus y Llywodraeth Ganolog sy'n golygu bod yn rhaid i'r Gwasanaeth Dysgu ddod o hyd i arbedion o £5 Miliwn dros y dair blynedd nesaf, mae angen

adolygu'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion sydd hefyd yn amserol gan y bydd rhaglen Band B yn dechrau yn Ebrill, 2019.

Dywedodd yr Aelod Portffolio bod Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn darparu cyfle i foderneiddio ysgolion Ynys Môn ymhellach ac i ddod o hyd i atebion lleol i broblemau lleol. Mae'r adroddiad yn nodi'r amserlen ar gyfer gweithredu ar y Strategaeth sydd wedi'i diweddaru ac hefyd yn ymhelaethu ar y gyrwyr ar gyfer newid ar gyfer y rhaglen Band B sydd wedi eu haddasu o'r rhai hynny a ddefnyddiwyd ar gyfer Band A. Rhagwelir y bydd yn rhaid blaenoriaethu dalgylch Ysgol Syr Thomas Jones o fewn Band B ac er bod potensial ar gyfer cynnydd yn y boblogaeth honno o ganlyniad i ddatblygiad Wylfa Newydd lle rhagwelir hyd at 200 o ddisgyblion ychwanegol, bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth i wneud newidiadau er mwyn sefydlu trefniadau addysgol sy'n briodol ar gyfer y dyfodol. Yn fwy na hynny, bydd angen blaenoriaethu'r ddarpariaeth addysg ôl-16 a hynny am y rhesymau a amlinellir yn yr adroddiad.

Bu'r Aelod Portffolio gloi drwy ddweud bod y bum mlynedd ddiwethaf wedi bod yn gyfnod cyffrous ar gyfer moderneiddio ysgolion a bod yn rhaid i'r Awdurdod fanteisio ar y cyfle cyn y bydd yn parhau â'i raglen gwelliant er mwyn sefydlu system ysgolion sy'n addas ar gyfer y 30 i 50 mlynedd nesaf er mwyn i blant yr Ynys gael y cyfle gorau i ffynnu a gwneud y gorau o'r cyfleoedd byd gwaith sydd ar y gorwel – ni fydd y genhedlaeth nesaf yn diolch i'r Awdurdod am beidio â gweithredu ar y cyfle hwn. Mae gweledigaeth y Cyngor ar gyfer addysg yn gyson â'i Gynllun Corfforaethol o ran gwneud ymrwymiad i weithio gyda phobl Ynys Môn er mwyn sicrhau gwasanaethau o'r safon uchaf sy'n gwella bywydau pobl ac sydd hefyd yn creu'r amodau er mwyn i blant a phobl ifanc yr Ynys allu cyflawni eu llawn botensial.

Cyfeiriodd y Pennaeth Dysgu at weledigaeth y Cyngor ar gyfer addysg fel y'i crisialir gan y strategaeth. Er mwyn gallu cyflawni'r weledigaeth hon, bydd y Cyngor yn sicrhau bod pob ysgol yn cyflawni'r safonau uchaf fel y gall pobl ifanc Ynys Môn elwa o'r cyfleoedd sydd ar gael yn y byd cystadleuol sydd ohoni heddiw. Dywedodd y Swyddog ei fod yn hanfodol bod safonau addysgol yn Ynys Môn ymysg y gorau yn genedlaethol a bod ei systemau ysgolion yn effeithiol ac effeithlon. Bydd y Rhaglen Moderneiddio diwygiedig fel y'i cyflwynwyd yn allweddol ar gyfer gallu cyflawni nodau uchelgeisiol y Cyngor ar gyfer addysg drwy sicrhau ysgolion o'r maint cywir yn y lleoliadau cywir a arweinir gan Benaethiaid a Thimau Arweinyddiaeth ysbrydoledig sydd wedi ymrwymo i godi safonau gwaith y dysgwyr maent yn gofalu amdanynt. Mae hyn yn golygu adolygu'r system bresennol yn ôl ardal a seilio'r atebion ar ofynion ac ethos pob ardal unigol.

Siaradodd y Swyddog am y sefyllfa bresennol a'r newidiadau sydd angen sylw gan nodi er bod yr Awdurdod wedi gwneud camau sylweddol o dan raglen Band A, mae nifer o heriau yn parhau yn y sector cynradd ac yn y sector uwchradd lle mae gostyngiad mewn niferoedd a chynnydd mewn lleoedd gwag ochr yn ochr â thoriadau ariannol wedi arwain at heriau ariannol sylweddol. O ganlyniad, bydd lleihau nifer yr ysgolion uwchradd neu newid ethos yr ysgolion yn rhywbeth y bydd angen ei ystyried os yw darpariaeth addysg uwchradd i'w sicrhau mewn rhai rhannau o'r sir. Mae'r arbedion bydd yn rhaid i'r Gwasanaeth Addysg eu gwneud dros y dair blynedd nesaf yn golygu bod yn rhaid adolygu'r system er mwyn sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac mai'r canlyniad yn y pen draw yw system sy'n addas ar gyfer y 30 mlynedd nesaf, sy'n hyrwyddo'r safonau addysg gorau posibl, sy'n diogelu patrwm priodol o ddarpariaeth ôl-16; sy'n meithrin hyfedredd dwyieithog ac sy'n creu amodau lle gall penaethiaid lwyddo.

Bydd gweithredu Band B yn golygu buddsoddiad cyfalaf sylweddol, gan olygu y bydd yr ardaloedd sydd angen sylw gyntaf yn cael eu blaenoriaethu a bydd cost-effeitholrwydd pob opsiwn angen ystyriaeth bwysig wrth wneud y penderfyniadau hynny.

Ymhelaethodd y Pennaeth Dysgyu ar y gyrwyr dros newid ar gyfer rhaglen Band B, sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad. Dywedodd er na fydd yn bosibl cael model sydd yr union yr un peth ar draws Ynys Môn a hynny am resymau daearyddol, poblogaeth, trafnidiaeth, dewis rhieni ac ati, mae angen i unrhyw ddatblygiad newydd allu bodloni'r anghenion a restrir yn adran 4 o'r adroddiad. Mae'r modelau darparu posibl wedi eu hamlinellu yn adran 4.2 yr adroddiad. Mae'r broses ar gyfer cymeradwyo a gweithredu'r strategaeth ddiwygiedig ynghyd ag amserlen Bandiau A i C y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion 21ain Ganrif wedi eu hamlinellu yn adrannau 5 a 6.

Dywedodd y Swyddog mai'r bwriad yw i'r Rhaglen Moderneiddio adael etifeddiaeth o system addysg sy'n addas i'r diben ac sy'n creu amodau lle gall athrawon weithio â dysgwyr er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth addysg ymysg y gorau yn genedlaethol.

Adroddodd y Cynghorydd Dylan Rees, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, yn ôl o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 8 Hydref, 2018 a roes sylw i'r Strategaeth Moderneiddio ysgolion. Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees fod y Pwyllgor wedi cefnogi'r adroddiad a'r argymhellion a oedd wedi eu cynnwys tra hefyd yn tynnu sylw at nifer o faterion, sef –

- yr angen i barhau ar fyrder i adolygu'r ddarpariaeth addysg ôl-16;
- fforddiadwyedd y strategaeth mewn cyfnod o gyni ariannol;
- cyflwr ysgolion y Sir;
- yr angen i gadw dysgwyr ôl-16 ar yr Ynys;
- yr angen i gysoni gwariant y pen yn yr holl ysgolion;
- yr angen i weithredu'r opsiwn gorau ar gyfer pob ardal unigol gan nodi hefyd nad yw'r strategaeth yn gwneud unrhyw gyfeiriad at gau ysgolion â llai na 120 o ddisgyblion;
- pwysigrwydd amser di-gyswllt i benaethiaid;
- pwysigrwydd cadw at amserlenni adeiladu ysgolion newydd;
- yr angen i wneud trefniadau ystyriol er mwyn galluogi'r cyhoedd i gyflwyno eu safbwyntiau yn ystod cyfnodau ymgynghori.
- bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i drefnu ymweliad ar gyfer aelodau'r Pwyllgor gydag ysgol pob oedran ynghyd ag un o'r ysgolion cynradd newydd sydd eisoes wedi'i hadeiladu fel rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion ym Môn.

Bu i'r Pwyllgor Gwaith nodi a diolch i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am ei fewnbwn. Wrth gefnogi'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion un unfrydol, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod mai'r flaenoriaeth frys bellach yw rhoi sylw i'r sector uwchradd a'r ddarpariaeth ôl-16 ynghyd â pharhau i weithredu'r rhaglen moderneiddio yn y sector cynradd er mwyn sicrhau'r newidiadau a fydd yn arwain at system addysg deg, effeithiol ac addas i'r diben ar Ynys Môn sy'n ymatebol i anghenion y 21ain Ganrif.

Nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach y bydd y rhaglen o gyni ariannol parhaus y Llywodraeth Ganolog a'r gostyngiadau yng nghyllidebau Cynghorau yn effeithio ar Addysg gan greu sefyllfa bosibl lle efallai bydd yr Awdurdod ar un llaw yn ceisio cyfrannu 50% tuag at gostau cyfalaf ysgolion newydd yr 21ain Ganrif tra ar y llaw arall yn edrych i dorri cyllidebau ysgolion a allai arwain at golli staff. Os yw Addysg, fel y mae'n cael ei nodi, yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yna mae angen cefnogi'r ymrwymiad hwn gydag adnoddau digonol fel y gall cynghorau fodloni'r disgwyliadau ohonynt o ran darparu system addysg lwyddiannus yn eu hardal.

**Penderfynwyd –**

- **Mabwysiadu'r Strategaeth Addysg Ynys Môn-Moderneiddio Ysgolion (Diweddariad 2018) fydd yn weithredol o'r 15 Hydref 2018 ymlaen.**

- **I swyddogion gychwyn y broses o ymgynghori yn ardaloedd Band ‘B’ dros y 12 mis nesaf.**

**3. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2017/18**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid Corfforaethol yn cynnwys yr Adroddiad Perffomriad Blynyddol 2017/18 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Trawsnewid Corfforaethol bod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, y mae angen statudol i’r Cyngor ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref yn flynyddol, yn dadansoddi’r perfformiad dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn y gwelliannau a’r blaenoriaethau a amlinellir gan y Cyngor yn ei amcanion Llesiant ac yng Nghynllun y Cyngor. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod y Cyngor wedi cael nifer o lwyddiannau yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18, yn cynnwys yr enghreifftiau canlynol –

- Croesawodd Ysgol Cybi, yng Nghaergybi, ac Ysgol Rhyd y Llan, yn Llanfaethlu, ddisgyblion ar ddechrau’r flwyddyn academaidd. Mae’r ddwy ysgol 21ain ganrif fodern yn cynrychioli prosiectau arloesol i’r Cyngor Sir gan ei fod yn gweithio i foderneiddio a gwella addysg a sgiliau ar yr Ynys.
- Mae’r cyfradd ailgylchu’r Cyngor bellach yn 72% gyda dim ond 0.5% o’n gwastraff sirol bellach yn cael ei ddanfon i safleoedd tirlenwi. Yn seiliedig ar ddata’r llynedd, byddai hyn yn golygu mai Ynys Môn yw’r Awdurdod Lleol sy’n perfformio orau yng Nghymru.
- Mae’r Cyngor wedi wedi ymrwymo i geisio ‘Statws Di-blastig’ ar gyfer Ynys Môn ac mae bellach yn gweithio tuag at yr amcan hwn.
- Mae 75 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd o ganlyniad i gamau uniongyrchol gan y Cyngor.
- Mae cyfleuster gofal ychwanegol Hafan Cefni wedi ei ddatblygu yn Llangefni a bydd yn agor yn yr hydref.

Tra bo’r perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad lleol allweddol, fel yr adlewyrchir gan y Sgorfwrdd Corfforaethol, yn adrodd stori gymysg ar y cyfan gyda nifer y Dangosyddion Perfformiad y gellir eu cymharu yn dangos bod 45% wedi gwella, 13% wedi aros yr un fath a 22% wedi dirywio ers y llynedd, dylid nodi bod 58% o’r dangosyddion wedi perfformio yn uwch na’u targed ar gyfer y flwyddyn, roedd 15% yn agos at y targed a’r 17% sy’n weddill yn is na’r targed. O ran perfformiad yn erbyn dangosyddion cenedlaethol y cyfeirir atynt fel Mesurau Atebolrwydd Perfformiad (PAM) sy’n cymharu pob awdurdod lleol yn erbyn yr un dangosyddion, roedd 50% o ddangosyddion y Cyngor wedi gwella, 36% wedi gwaethygu o gymharu â pherfformiad 2016/17. Fodd bynnag, rhaid nodi mai’r rhain yw’r dangosyddion PAM sydd wedi eu cyhoeddi ar hyn o bryd – bydd 2 o’r dangosyddion PAM Rheoli Gwastraff presennol nad ydynt wedi eu cyhoeddi yn perfformio’n dda ac mae 6 dangosydd pellach i’w cynnwys ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd yr holl ddangosyddion PAM yn cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd, 2018.

Dywedodd yr Aelod Portffolio, gan edrych ymlaen tuag at 2018/19, bod y Cyngor yn ymwybodol o’r heriau ariannol sy’n wynebu’r Gwasanathau Plant a’r Gwasanaethau Dysgu a’i fod yn bwriadu edrych ar ffyrdd o gryfhau ei wasanaethau ataliol a llesiant ar gyfer plant, pobl ifanc a phobl fregus o fewn cymdeithas. Bydd datblygiadau’n cael eu gwneud er mwyn gwella cyfleusterau hamdden ymhellach drwy greu cae 3G a buddsoddi mewn offer ffitrwydd. Mae nifer o brosiectau Datblygiad Economaidd ac Ynys Ynni ar y gweill a bydd datblygiad y rheini yn parhau i 2018/19. Tra bo cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn uchelgeisiol, credir gyda chymorth staff, trigolion a phartneriaid y gellir cyflawni amcanion y

DRAFT

Cyngor a chreu Ynys Môn sy'n fodern, iach a ffyniannus ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod perfformiad yn bwysig ac, yr un modd, bod cael system reoli perfformiad gadarn. Mae'r system hon o fewn y Cyngor, sy'n cynnwys y Byrddau Rhaglen Trawsnewid, Adolygiadau Gwasanaeth a'r Sgorfwrdd Corfforaethol wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac maent yn rhan allweddol o'r datblygiad parhaus tuag at wella gwasanaethau.

Tynnodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) sylw at y ffaith bod dangosyddion perfformiad Gwasanaethau Plant wedi gwella a'u bod yn parhau i wella gyda'r gwelliant hwn fwyaf amlwg yn ail hanner 2017/18.

Nodwyd y wybodaeth gan y Pwyllgor Gwaith a nodwyd hefyd fod perfformiad yr Awdurdod yn parhau i fod yn dda o gofio'r pwysau mae'n ei wynebu ac o gofio ei fod yn un o'r awdurdodau lleiaf yng Nghymru.

**Penderfynwyd cytuno ac argymell –**

- **Bod fersiwn derfynol Adroddiad Perfformiad 2017/18 yn cael ei chyhoeddi erbyn y dyddiad statudol ar ddiwedd mis Hydref a bod Swyddogion yn cwblhau'r adroddiad mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio i'w gyhoeddi fel rhan o bapurau'r Cyngor ar gyfer ei gyfarfod ar 22 Hydref.**
- **Bod Adran 3.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio i gynnwys cymeradwyo penderfyniadau ar gyfer Datganiad ac Amcanion Llesiant y Cyngor yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant 2016 fel swyddogaeth y mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn ei chyflawni.**
- **Bod y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn cael ei hawdurdodi i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r materion sydd wedi eu neilltuo fel swddogaethau y mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn eu cymeradwyo yn y Cyfansoddiad ynghyd ag unrhyw newidiadau y mae'n rhaid eu gwneud o ganlyniad i adlewyrchu hynny.**

**Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G.Parry, OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorywr Lewis Davies, Glyn Haynes, R. Llewelyn Jones, Alun Roberts |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2. DOGFEN CYNLLUN TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU: Y DDOGFEN GYNNIG**

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr yn cynnwys Dogfen Gynnig Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cadeirydd ac Arweinydd y Cyngor fod y Ddogfen Gynnig hon yn nodi'r rhaglenni blaenoriaeth o weithgareddau ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru y mae cyllid cenedlaethol yn ace lei geisio amdano drwy'r Fargen Twf ac sy'n paratoi'r tir ar gyfer cais bid twf. Mae'n gosod allan y rhaglenni a'r prosiectau i'w hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y Fargen Twf ar y cam Penawdau'r Telerau gan y ddwy Lywodraeth. Mae'r ddogfen wedi ei hawdurdodi gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sef y cydbwyllgor y bydd y bartneriaeth ranbarthol rhwng y chwe awdurdod lleol, dwy brifysgol, dau goleg addysg bellach a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy yn gweithredu drwyddo.

Dywedodd y Cadeirydd bod y Fargen Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru yn nodi’r uchelgais cyfunol a strategol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru ar gyfer datblygiad isadeiledd, sgiliau a chyflogaeth a thwf busnes; mae’n cynnwys ymrwymiad gan yr holl bartneriaid i gydweithio tuag at nod cyffredin. Mae uchelgais i'r rhanbarth osod ei hun fel un o brif leoliadau'r DU ar gyfer cynhyrchu ynni a gweithgynhyrchu uwch - ynghyd â bod yn ganolbwynt o arloesedd ac arbenigedd technoleg, a chanolfan o ragoriaeth ar gyfer twristiaeth gwerth uchel. Mae'r uchelgais hon yn adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd, a bydd ei chyflawni yn creu ymagwedd fwy cynaliadwy a chytbwys i ddatblygu'r economi. Seiliwyd y Weledigaeth Twf ar dri nod allweddol: Creu Gogledd Cymru Flaengar; creu Gogledd Cymru Wydn a chreu Gogledd Cymru Gysylltiedig. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig bod yn glir am yr hyn y mae’r Fargen Twf yn ei olygu a’r hyn y mae’n ceisio ei gyflawni ar gyfer y rhanbarth.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth a gyflwynwyd ac roedd yn gefnogol o’r Ddogfen Gynnig gan ei bod yn cynrychioli’r cam nesaf yn y broses o ddatblygu’r Fargen Twf. Nododd y Pwyllgor Gwaith ei bod yn synhwyrol bod y partneriaid rhanbarthol yn cydweithio â’i gilydd er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleodd a chryfhau economi Gogledd Cymru mewn hinsawdd sydd yn anodd yn economaidd a hefyd, ei bod yn bwysig fod Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfranogwr ac yn dylanwadu . Nododd y Pwyllgor Gwaith nad yw mabwysiadu’r Ddogfen Gynnig yn ymrwymo’r Cyngor i unrhyw fuddsoddiad ariannol ei hun ar y cam hwn o’r broses.

**Penderfynwyd –**

- **Cadarnhau'r Ddogfen Gynnig i'w chymeradwyo i'r Cyngor ei mabwysiadu fel (1) sail strategaeth ranbarthol tymor hwy ar gyfer twf economaidd a (2) y cais rhanbarthol ar gyfer y rhaglenni a'r prosiectau blaenoriaeth a ddefnyddir i ffurfio cynnwys Cynllun Twf ar y cam Penawdau'r Telerau gyda'r Llywodraethau. Nid yw mabwysiadu yn ymrwymo’r Cyngor i fuddsoddiad ariannol o gwbl ar y cam hwn ac mae’n amodol ar nodi risgiau a buddion ariannol y Cynllun Twf terfynol yn fanwl, i’w hystyried yn llawn, pan gaiff y Cynllun terfynol ei gyflwyno er cymeradwyaeth yn ddiweddarach.**

- **Awdurdodi'r Arweinydd i ymrwymo'r Cyngor i Benawdau'r Telerau gyda'r Llywodraethau law yn llaw ag arweinyddion gwleidyddol a phroffesiynol o'r naw partner statudol arall a gynrychiolir ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, gyda'r Ddogfen Gynnig yn gosod y ffiniau ar gyfer y cytundeb Penawdau'r Telerau.**

**Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **12.11.18** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Ymgynghori Cyllideb 2019/20** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng. Dafydd Rh Thomas** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Carys Edwards** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Gethin Morgan**<br>**752111**<br>**GethinMorgan@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Dd/B** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1.1. Mae'r atodol yn cynnig disgrifiad lefel uchel o'r cynllun ymgynghori arfaethedig ar gyfer y gyllideb i'w wireddu yn ystod y cyfnod – wythnos yn cychwyn Tachwedd 12fed hyd at Rhagfyr 31ain, 2018.

1.2. Mae'n cyfleu dull weithredu traws sector gyda'r bwriad o gyflwyno sylwadau'r dinesydd drwy –

a. Y Wasg
b. Cynghorau Tref a Chymuned
c. Gweithdai Rhanddeiliaid
d. Y We
e. Cyfryngau Cymdeithasol
f. Panel Dinasyddion
g. Gweithdai Plant a Phobl Ifanc

1.3. Gofynnir i'r Pwyllgor archwilio'r cynllun arfaethedig sydd yn seiliedig ar gynlluniau y ddwy flynedd diwethaf fel y gellid gwella'r cynllun ymgynghori cyllidebol i'r dyfodol ac hefyd uchafu ymwybyddiaeth corfforaethol o'r gwaith disgwyliedig dros y cyfnod a nodir drwy gytuno I'r cynllun a nodir.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amh. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Yndi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Yndi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim Sylwadau |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim Sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A – Cynllun Ymgynghori / Cyfathrebu Cynnigion Cyllidol Cyngor Sir Ynys Mon 2019/20 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cynllun y Cyngor 2017-2022 |

**CYNLLUN YMGYNGHORI / CYFATHREBU –**

**CYNNIGION CYLLIDEBOL CYNGOR SIR YNYS MÔN 2019/20**

Pwrpas y cynllun hwn yw cydnabod y meysydd sydd angen sylw er mwyn ymgynghori'n eang a thrylwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod cynnig terfynol y Pwyllgor Gwaith o gyllideb 2019/20 i'r Cyngor ym mis Chwefror 2019 yn rhoi sylw i safbwyntiau gwahanol ac yn cydnabod effaith a'r risgiau sydd yn bodoli.

Mae'r cynllun yn rhoi brasamcan i'n dinasyddion / partneriaid o'r heriau a wynebwn fel corff cyhoeddus.

Mae'r amserlen canlynol yn cwmpasu'r dyddiadau Tachwedd y 13eg - Rhagfyr 31ain.

| **Cyfeirnod** | **Dyddiad / Cyfnod** | **Digwyddiadau / Ymgyrchoedd a Phwrpas** | **Arwain** | **Cymorth** | **Er Gwybodaeth** |
|---|---|---|---|---|---|
| A | 17.9.18 | Cyfarfod Pwyllgor Gwaith i dderbyn y MTFP a rhoi sel bendith i'r ffordd ymlaen am y 3 blynedd nesa' | Cyllid | Cyllid / Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | UDA / Penaethiaid |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| B | 6.11.18 | Cyfarfod Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol fydd yn craffu ar effaith / meysydd o bryder a adnabuwyd yn y gweithdai mis Hydref. Rhoi sylw i'r cynllun ymgynghori. | Rheolwr Sgrwtini Corfforaethol | Penaethiaid | Cyllid / Deilyddion Portffolio |
| C | 12.11.<br>18 | Cyfarfod Pwyllgor Gwaith i gynnig arbedion arfaethedig 2019/20 i bwrpas ymgynghori (gan ddeall effeithiau'r newidiadau). | Cyllid | Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | UDA a Phenaethaid |
| Ch | Diwedd<br>Tachwe dd | Cyfarfod Grwp Rhanddeiliaid Cynghorau Tref a Chymuned i drafod cyfleoedd ac oblygiadau y cynigion posib. | Arweinydd | Cyllid / Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | J Huw Jones<br>Penaethiaid |
| D | I'w bennu | *****Gweithdy Rhanddeiliaid yn y Siambr / YB1 i drafod y cyfleoedd a'r risgiau cynigion arfaethedig 2019/20***** | Rheolwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad | Tim y Wasg<br>Uwch Gyfrifydd Cyllid<br>Arweinydd a Phrif Weithredwr | Penaethiaid |

| Ymgyrch hyrwyddo'r arbedion yn yr 'arena' cyhoeddus drwy amryw o sianeli gwahanol……. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| DD | 7.11.18 | Sesiwn briffio i'r Wasg ynglyn a chynigion cychwynnol cyllideb 2019/20. Codi ymwybyddiaeth y darllenwyr a cadw'n dynn i linellau corfforaethol o gyfathrebu. | Swyddog y Wasg | Cyllid / Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | Penaethiaid a Staff |
| E | 13.11.18– 31.12.18 | Ymgyrch hyrwyddo'r arbedion arfaethedig ar y we gydag holiadur pwrpasol wedi ei lunio i dderbyn sylwadau trigolion yr Ynys. Y defnydd ehangach o FB a Twitter yn hanfodol bwysig yma bellach yn ogsytal a cyfweliad radio i'r Arweinydd ar MonFM. | Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | Cyllid / Lleisiau'n Lleol | Staff |
| F | 12.11.18 – 31.12.18 | Defnydd o banel dinasyddion a'r grwpiau cymunedol sydd wedi'i ffurfio a fforymau priodol megis Cyngor Ieuenctid ac Ysgolion i gynnig arweiniad a rhoi adborth ar feysydd sydd ag effaith uniongyrchol ar unigolion y fforymau hynny.<br>• ***Fforwm Cyllid Ysgolion (Rhagfyr)*** | Rheolwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad | Medrwn Mon<br>Tim y Wasg | PW Cynorthwyol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • ***Fforwm Pobl Hyn (30.11.18)***<br>• ***Fforwm Pobl Ifanc (19.11.18)*** | | | |

Bydd y cynllun uchod yn ein galluogi fel Swyddogion i goladu a chasglu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn ffurfio adroddiad i gynyddu'r ymwybyddiaeth o safbwyntiau gwahanol unigolion a mudiadau i'r cynigion arfaethedig i bwrpas adrodd ar y rhain (i) mewn sesiwn briffio cyn ddiwedd Ionawr a (ii) yng nghyfarfod Sgrwtini Corfforaethol dechrau mis Chwefror 2019.

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I :** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **12 TACHWEDD 2018** |
| **PWNC:** | **PREMIYMAU'R DRETH GYNGOR – AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG TYMOR HIR (ADOLYGIAD O'R FLWYDDYN GYNTAF)** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS (DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **GERAINT H JONES**<br>**(RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU)**<br>01248 752651<br>GHJFI@ANGLESEY.GOV.UK |
| **AELODAU LLEOL:** | **AMHERTHNASOL** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLION**

**1.** Nodi cynnwys yr adroddiad sy'n adolygu blwyddyn gyntaf premiwm y Dreth Gyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 a hyd yn hyn am 2018/19.

**AMRYWIOL OPSIYNAU**

Ystyried yr opsiynau a ganlyn ac argymell i Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor llawn) gynigion i fabwysiadu:

**2**. Parhau gyda'r polisi, heb ei newid, a chynnal adolygiad pellach yn 2019/20 ar ôl blwyddyn lawn bellach o weithredu'r polisi **NEU**

**3.** Penderfynu -

- a ddylid lleihau'r premiwm, a ddylai aros yr un fath ynteu gynyddu ac i ba lefelau canran?
- a ddylai'r premiwm aros yr un fath i eiddo gwag tymor hir ac ail gartrefi ynteu a ddylid defnyddio gwahanol gyfraddau canran?
- a ddylid neilltuo canran uwch o'r incwm a godir o'r premiymau yn hytrach na chynyddu incwm y Dreth Gyngor i gwrdd â chostau gwasanaeth cyffredinol?
- a ddylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

**4.** Ystyried a ddylai arian ychwanegol y bydd y premiwm yn ei greu gael ei neilltuo i'r cynlluniau a fwriadwyd i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf, fel y gofynnodd y Pennaeth Gwasanaeth (Tai).

(Rhydd **Atodiad A** fanylion yr incwm a amcangyfrifir a fyddai'n berthnasol ar gyfer canrannau premiwm gwahanol ar gyfer eiddo gwag tymor hir ac ail gartrefi).

**Y RHESYMAU A'R CEFNDIR**

Ar 10 Mawrth 2016, cytunodd y Cyngor llawn i wneud i ffwrdd ag unrhyw ostyngiadau a roddir i anheddau gwag tymor hir ac anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd (a elwir yn ail gartrefi fel arfer) a defnyddio y dreth gyngor uwch (a elwir yn bremiwm y Dreth Gyngor) i ddod i rym o 1 Ebrill 2017. Mae'r Cyngor llawn wedi gosod premiwm y Dreth Gyngor ar 25% o gyfradd safonol y dreth gyngor i anheddau gwag tymor hir ac anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd (a elwir yn ail gartrefi fel arfer).

(Rhydd **Atodiad B** fanylion y premiymau a ddefnyddir gan Awdurdodau eraill Cymru a chynlluniau arfaethedig yn y dyfodol, lle gwyddys beth ydynt, a'u canran berthnasol).

Datganodd y Cyngor llawn hefyd y dylai'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 gynnal adolygiad o bremiymau'r Dreth Cyngor yn ystod 2018/19 ar ôl blwyddyn lawn gyntaf o'u gweithredu. Y rheswm am adolygiad o'r fath oedd -

- sefydlu a oedd y premiymau a bennwyd wedi cwrdd â nodau'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ac
- yn sgil hyn, a oedd angen amrywio neu ddiddymu lefelau'r premiwm a bennwyd pan fo'r Cyngor Llawn yn gosod ei Dreth Gyngor am 2019/20 a
- pe pennid bod angen amrywio neu ddiddymu lefelau'r premiwm, byddai'r premiymau diwygiedig yn dod i rym o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

Caiff y Pwyllgor Gwaith ei atgoffa o nod Llywodraeth Cymru pan roes yr hawl i awdurdodau lleol godi premiwm ar ben y gyfradd safonol - roedd yn arf i gynorthwyo awdurdodau lleol i: -

**1.** dod â chartrefi gwag tymor hir yn ôl i ddefnydd er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a
**2.** cefnogi awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol.

Wrth ystyried p'un ai ddylid codi premiwm ai peidio, rhaid rhoi ystyriaeth i'r nodau hyn a hefyd i'r angen penodol am dai a'r amgylchiadau penodol yng nghyswllt tai yn ardal yr Awdurdod. Ymhlith y ffactorau a fu'n gymorth i'r Cyngor llawn benderfynu a ddylid codi tâl premiwm ai peidio roedd:-

- niferoedd a chanrannau anheddau gwag tymor hir neu ail gartrefi yn ei ardal;
- dosbarthiad anheddau gwag tymor hir neu ail gartrefi a thai eraill yn yr Awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd penodol;
- effaith bosib ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth;
- patrymau galw am dai fforddiadwy a faint oedd ar gael;
- effaith bosib ar y gwasanaethau cyhoeddus lleol a'r gymuned leol;
- mesurau eraill sydd ar gael i'r Awdurdod i gynyddu'r cyflenwad tai a dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

O ran goblygiadau ariannol o wneud i ffwrdd â disgowntiau a phennu premiymau, roedd yr Awdurdod yn gallu cadw unrhyw gronfeydd ychwanegol a gynhyrchir trwy weithredu'r premiymau i'w gwario fel y dymunai. Pasiwyd rheoliadau sylfaen drethu newydd gan Lywodraeth Cymru gan wneud i ffwrdd â'r angen i addasu Grant Cynnal Refeniw'r Awdurdod yn sgil cynnydd yn sylfaen y dreth. Gallai'r Awdurdod wario'r arian ychwanegol a grëir ganddo fel y dymunai, ond rhoes Llywodraeth Cymru anogaeth i'r Awdurdod ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i gynorthwyo i ddiwallu angen lleol am dai, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau.

O fod yn ymwybodol o fwriadau polisi'r premiymau, ym mis Chwefror 2017 cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith bolisi i weithredu dau gynllun newydd i gynorthwyo prynwyr lleol cyntaf, a'u hariannu o'r premiwm ychwanegol: -

**a)** grant i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf i brynu ac adnewyddu cartref gwag; a
**b)** benthyciada ecwiti i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf.

I ddechrau, roedd y polisi wedi'i gyfyngu i ardaloedd cyngor tref / cymuned penodedig, oedd â niferoedd uchaf yr ail gartrefi a / neu nifer isaf y cartrefi ar brisiau tai chwartel isaf. Fodd bynnag, oherwydd nifer fawr o ymholiadau gan brynwyr tro cyntaf cymwys oedd yn prynu o'r tu allan i'r ardaloedd penodedig hyn, estynnwyd y cynllun ar draws Ynys Môn gan roi cyfleoedd cyfartal a theg i bobl brynu cartref. (Penderfyniad gweithredol a gymerwyd gan yr Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau, Chwefror 2018).

Wrth ystyried cyflwyno premiymau'r Dreth Gyngor, roedd y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn yn rhoi sylw dyledus i risgiau amlwg a grynhoir isod -

- Nid oedd data'r Dreth Gyngor ar anheddau gwag tymor hir ac ail gartrefi'n wedi'u diweddaru'n rheolaidd ers i'r Cyngor llawn osod polisi na fyddai unrhyw ostyngiadau'n cael eu rhoi ar gyfer y cyfryw anheddau. Mae'r Dreth Gyngor safonol lawn yn daladwy ar y cyfryw anheddau. Sefydlodd adolygiad a gynhaliwyd yn 2015 gan gwmni cyfeirio credyd oedd yn gwirio'u cofnodion gyda chofnodion y Cyngor fod gan 22% i 25% o anheddau gwag tymor hir neu ail gartrefi ar gofnodion y Dreth Gyngor risg canolig i uchel o fod yn cael eu meddiannu fel unig neu brif breswylfa unigolyn. Ni ellir codi premiwm y Dreth Gyngor ar y cyfryw eiddo ac, felly, roedd perygl y gellid gorliwio amcangyfrifiad o'r incwm ychwanegol a gynhyrchir;
- A fyddai cynnydd yn y perchnogion sy'n gwrthod neu'n methu â thalu premiwm y Dreth Gyngor?
- A fyddai cynnydd yn nifer y perchenogion sy'n osgoi premiwm y Dreth Gyngor wrth, er enghraifft, drosglwyddo defnydd i drethi busnes, gan newid o ail gartrefi i dai gwag tymor hir, ceisio marchnata'r eiddo i'w werthu neu ei rentu i hawlio eithriad, honni y caiff yr annedd ei meddiannu neu newid unig a phrif breswylfa?
- A fyddai hyn yn arwain at ostyngiad yng Nghofrestr y Dreth Gyngor eiddo domestig h.y. sylfaen y dreth?
- A fyddai hyn yn cael effaith ar enw da'r Cyngor?
- A fyddai hyn yn arwain at gynnydd yn nifer yr apeliadau a'r heriau cyfreithiol?
- Sut fyddai hyn yn cael effaith ar y diwydiant twristiaeth lleol?

Wrth sefydlu a yw'r premiymau a bennwyd wedi cwrdd â nodau'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn, rhoddir ystyriaeth lawn i'r risgiau amlwg a nodwyd.

**A YW'R PREMIYMAU A BENNWYD WEDI CWRDD Â NODAU'R PWYLLGOR GWAITH A'R CYNGOR LLAWN?**

**A**. O ran y ddau gynllun newydd a sefydlwyd i gefnogi prynwyr tro cyntaf am y ddwy flynedd, 2017/18 a 2018/19 - neilltuwyd £170,000 bob blwyddyn i'r Cynlluniau Tai Gwag o'r incwm ychwanegol a godwyd o godi'r premiwm (cyfanswm o £340,000 hyd yn hyn). Oherwydd y cyllid cyfyngedig sydd ar gael a bod y galw am y Grant Adnewyddu Cartrefi Gwag ar gyfer prynwyr Tro Cyntaf yn well na'r disgwyl, mae lansiad y cynllun Benthyciadau Ecwiti wedi'i ohirio.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd 7 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd, gyda 7 arall yn cael eu hadnewyddu ar hyn o bryd. Erbyn diwedd Rhagfyr 2018, y disgwyl yw y byddir yn dod â 18 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd ac, felly, bydd y cynllun hwn wedi cefnogi 18 prynwr tro cyntaf ar draws Ynys Môn i brynu eu cartref eu hunain. Ceir tystiolaeth i ddangos bod y cynllun wedi cwrdd â'i amcanion yn yr ystyr -

- ei fod wedi cynorthwyo prynwyr tro cyntaf i ddod yn berchenogion cartref sy'n fforddiadwy iddyn nhw yn eu hardal o'u dewis;
- gwnaed y defnydd gorau o'r stoc dai sy'n bodoli eisoes trwy ddod â thai gwag tymor hir y mae angen gwneud gwelliannau iddynt, sef tai sy'n ddolur i lygad cymdogion, yn ôl i ddefnydd;
- ei fod yn rhoi gwerth ychwanegol trwy gefnogi mentrau bach i ganolig lleol ac yn rhoi manteision cymunedol eraill.

(Rhydd **Atodiad C,** a baratowyd gan y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) ddadansoddiad manylach o effaith y cynlluniau penodol hyn).

**B. Pa incwm gododd premiwm y Dreth Gyngor o'i gymharu â'r gyllideb a osodwyd?**

**Am 2017/18 -**

Ar 1 Ebrill 2017, (dyddiad cyflwyno premiwm y Dreth Gyngor), rhoddwyd y premiwm ar 2,307 o **ail gartrefi**. Rhoes hyn incwm, net o eithriadau, o £761,552 adeg y bilio blynyddol am flwyddyn ariannol 2017/18. Erbyn 31 Mawrth 2018, roedd premiwm ar 2,212 o ail gartrefi gan roi incwm, yn net o eithriadau, o £781,144 am flwyddyn ariannol 2017/18. Roedd hwn yn gynnydd mewn incwm o 2.6% yn ystod y flwyddyn ariannol gyntaf.

Ar 1 Ebrill 2017 (dyddiad cyflwyno premiwm y Dreth Gyngor), rhoddwyd y premiwm ar 694 o **eiddo gwag tymor hir**. Rhoes hyn incwm, net o eithriadau, o £211,255 adeg bilio blynyddol am flwyddyn ariannol 2017/18. Erbyn 31 Mawrth 2018, roedd premiwm ar 610 o eiddo gwag tymor hir, gan roi incwm, yn net o eithriadau, o £167,911 am flwyddyn ariannol 2017/18. Roedd hyn yn ostyngiad mewn incwm o 20.5% yn ystod y flwyddyn ariannol gyntaf.

Adeg y bilio blynyddol, rhoes hyn gyfanswm yr incwm yn £972,807 a godwyd o bremiwm y Dreth Gyngor ond, erbyn diwedd y flwyddyn, am y flwyddyn ariannol £949,055 oedd cyfanswm yr incwm a godwyd o bremiwm y Dreth Gyngor. Erbyn diwedd chwarter 2 2018/19, cafwyd gostyngiad pellach o £26,302 ym mhremiwm y Dreth Gyngor a godwyd am 2017/18, gan ostwng yr incwm a ragamcenir am y flwyddyn gyntaf i £922,753. Mae hyn yn ostyngiad cyffredinol o 5.2%yn ystod 18 mis mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol gyntaf.

O ystyried y risgiau amlwg a nodwyd o oramcangyfrifo'r incwm a ddaw o bremiymau'r Dreth Gyngor, gosodwyd cyllideb o £564,000 am 2017/18. Felly, roedd gwarged o £385,055 ar 31 Mawrth 2018 (£383,130 ar ôl caniatau am ddarpariaeth dyledion drwg). Roedd gostyngiad sylweddol yn yr incwm a ddaw o eiddo gwag tymor hir yn ystod y flwyddyn, gan olygu eu bod, mewn gwirionedd, yn cael eu meddiannu ac, felly, ni ellid defnyddio premiwm y Dreth Gyngor.

Fodd bynnag, gellir dod i'r casgliad bod yr incwm a godir o bremiwm y Dreth Gyngor yn unol â disgwyliadau ac yn llawer mwy na'r incwm a ddarparwyd yn y gyllideb, gan fod y gyllideb a osodwyd yn adlewyrchu amcangyfrif mwy gofalus yn seiliedig ar y risgiau amlwg a nodwyd. Dylid nodi bod erydiad o fymryn dros 5% wedi digwydd hyd at chwarter 2 2018/19, o ran incwm 2017/18 a ddaw o bremiwm y Dreth Gyngor.

**Am 2018/19 -**

Cafwyd cynnydd cyfartalog o 4.8% yn lefel y Dreth Gyngor am 2018/19 gan roi incwm disgwyliedig o bremiwm y Dreth Gyngor o £993,660 (yn seiliedig ar y ffigurau ar 31 Mawrth 2018). Adeg bilio blynyddol am 2018/19, cyfanswm yr incwm a godwyd o bremiwm y Dreth Gyngor oedd £1,097,504 (£881,628 ar gyfer ail gartrefi a £ 215,876 ar gyfer tai gwag tymor hir).

Erbyn diwedd yr ail chwarter am 2018/19, roedd yr incwm a ddaw o bremiymau ar **ail gartrefi** wedi cynyddu i £898,098 (cynnydd o 1.9% erbyn diwedd chwarter 2 o'r hyn oedd yn y bilio blynyddol) ond roedd yr incwm o **dai gwag tymor hir** wedi gostwng i £194,828 (gostyngiad o 9.8% erbyn diwedd chwarter 2 o'r hyn oedd yn y bilio blynyddol). Mae hyn yn rhoi cyfanswm incwm y Dreth Gyngor o £1,092,926, swm a ragamcenir o'r premiwm ar ddiwedd chwarter 2 2018/19 - gostyngiad o 0.4% erbyn diwedd chwarter 2 o'r hyn oedd yn y bilio blynyddol am 2018/19.

Fodd bynnag, ar ôl caniatáu ar gyfer y cynnydd o 4.8% yn y Dreth Gyngor am 2018/19, mae hyn yn dal i fod yn gynnydd o 10% yn yr incwm a gynhyrchir o bremiymau'r Dreth Gyngor am 2018/19 o'i gymharu â 2017/18. Ar ddiwedd chwarter 2 roedd premiymau ar 2,627 o ail gartrefi a 697 ar eiddo gwag tymor hir.

£648,492 yw'r incwm a gyllidebwyd o bremiwm y Dreth Gyngor ac a ganiateir yn y gyllideb am 2018/19. Ar ddiwedd Chwarter 2, ceir gwarged rhagamcanedig o £418,132, (£416,041 ar ôl caniatau am ddarpariaeth dyledion drwg) sydd hefyd yn ystyried yr addasiad at ei lawr am 2017/18 sydd wedi digwydd yn 2018/19.

Felly, mae incwm a ddaw o bremiwm y Dreth Gyngor yn parhau i fod yn unol â disgwyliadau. Mae nifer yr eiddo gwag tymor hir y mae premiwm arnynt, a'r incwm a ddaw yn eu sgil, yn anwadal i ryw raddau wrth i bobl symud i mewn ac allan o'r eiddo ac, o bosib, gyflawni'r nod o ddod ag eiddo o'r fath yn ôl i ddefnydd.

Fodd bynnag, mae incwm a ddaw o bremiwm y Dreth Gyngor o ran ail gartrefi'n fwy sefydlog ac wedi cynyddu. Byddai hyn yn awgrymu nad yw premiwm y Dreth Gyngor o 25% ar ail gartrefi wedi lleihau eu niferoedd at ei gilydd (ond gweler hefyd adran **CH** yr adroddiad hwn) ac nid yw'n ymddangos bod cael gosod premiwm y Dreth Gyngor ar 25% o'r Dreth Gyngor safonol wedi cael effaith ar hyblygrwydd y refeniw posib a gynhyrchir.

**C. A fu cynnydd mewn perchnogion oedd yn gwrthod neu'n methu talu Premiwm y Dreth Gyngor am 2017/18?**

Ar 30 Medi 2018, mae £13,988 yn ddyledus fel premiwm y Dreth Cyngor sydd heb ei dalu am 2017/18, gan roi cyfradd casglu o 98.5% mewn perthynas â'r premiwm a godir am 2017/18. (Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r gyfradd casglu am 2016/17, y flwyddyn ariannol ddiwethaf cyn cyflwyno'r premiwm, oedd â chyfradd casglu o 98.4% ar 30 Medi 2017). Parhau heb eu casglu y mae'r costau adennill o £4,415 am gyfrifon lle'r oedd y premiwm yn ddyledus am 2017/18.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu, o ran premiwm y Dreth Gyngor, fod pobl, yn gyffredinol, wedi gwrthod neu wedi methu talu premiwm y Dreth Gyngor ar wahân i achosion unigol. Cyflwynwyd tair apêl i Dribiwnlys Prisio Cymru, gyda phob un ohonynt yn mynd o blaid yr Awdurdod (yn bennaf ynghylch materion yr unig neu'r brif breswylfa a'r ymdriniaeth ag anecsys), gydag ychydig iawn o achosion o anhawster wrth dalu'r premiwm. Cyflwynodd y Cyngor llawn bolisi rhyddhad y Dreth Gyngor yn ôl disgresiwn ar gyfer yr achosion hyn, gan ddynodi dosbarth penodol o annedd lle ceir gwelliannau parhaus mewn perthynas â rhai anheddau gwag dynodedig penodol lle na fyddai premiwm y Dreth Gyngor yn berthnasol.

**CH. A fu cynnydd mewn perchenogion oedd yn osgoi taliadau premiwm y Dreth Gyngor e.e. trosglwyddo i drethi busnes, honni fod yr annedd honno'n cael ei meddiannu, ceisio marchnata'r eiddo i'w werthu neu ei rentu er mwyn hawlio eithriad ac ati?**

Dangosir lefel yr eithriadau a roddwyd yn **Atodiad CH**. Rhoddir manylion nifer yr eithriadau sy'n berthnasol ar hyn o bryd (ar ddiwedd chwarter 2 2018/19). Mae hyn (yn ôl nifer) yn 5% o ail gartrefi y nodir ar hyn o bryd y gellir rhoi premiwm arnynt a 4% o dai gwag yn y tymor hir y nodir ar hyn o bryd y gellir rhoi premiwm arnynt. Yn ariannol, mae hyn wedi golygu colli £25,738 o incwm premiwm am 2017/18 a £32,306 am 2018/19. Dengys tystiolaeth fod perchnogion yn wirioneddol marchnata neu'n ceisio rhentu eiddo drwy'r sianeli arferol.

O ran y risg bosib o drosglwyddo i gyfraddau busnes (a, thrwy hynny, hawlio'r rhyddhad trethi busnesau bach), dengys dadansoddiad o Ddisgrifiad Categori Arbennig – Tai Gwyliau ar Osod (hunanarlwyo) y Swyddfa Brisio bod 141 o eiddo wedi trosglwyddo i'r Rhestr Drethu o'r Dreth Gyngor yn y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 1 Ebrill 2018 h.y. eiddo lle'r oedd premiwm y Dreth Gyngor wedi bod yn berthnasol (o ran sylfaen y dreth, mae hyn yn ostyngiad cyfwerth â 151 o eiddo band D). Dylid nodi hefyd bod dynodiad ar gyfer trethi busnes llawer o'r rhain wedi'i ddyddio'n ôl hyd at 6 blynedd.

I fod yn gymwys fe tai gwyliau, rhaid i'r trethdalwr brofi i'r Swyddog Prisio bod yr annedd ar gael i'w gosod am 140 diwrnod a'i bod wedi'i gosod mewn gwirionedd am 70 diwrnod mewn cyfnod o 12 mis. Yn ariannol, mae hyn wedi golygu colli incwm premiwm o £50,329 am 2017/18 a £54,412 am 2018/19. Dylid nodi hefyd bod colled ychwanegol o incwm safonol y Dreth Gyngor ar gyfer y cyfryw eiddo yn £198,611 yn 2017/18 a £217,649 yn 2018/19. Bydd y rhai sy'n gwneud y symudiad hwn yn gorfod talu costau gwastraff masnachol ar yr annedd gan na chaiff ei ddosbarthu fel cartref mwyach.

Y mater anoddach yw trethdalwyr sy'n hawlio fod yr annedd yn cael ei meddiannu, neu gofnodion y Cyngor eu hunain yn dangos hynny, ond ei bod, mewn gwirionedd, yn ail gartref. Ers 1 Ebrill 2017 hyd at 30 Medi 2018 cafwyd cynnydd o 14% yn nifer yr anheddau y mae premiwm arnynt ac y tybir eu bod yn ail gartrefi. Mae'r Awdurdod yn parhau i adolygu'r categori hwn gan ei fod o'r farn nad yw pob eiddo sy'n ail gartref yn talu'r premiwm. Awgrymodd dadansoddiad diweddar o eiddo yn Nhrearddur a Rhosneigr, er enghraifft, y byddai o leiaf 50 eiddo'n debygol o fod mewn sefyllfa lle gellid rhoi premiwm arnynt (lle'r oedd gennym gyfeiriadau bilio o i ffwrdd) a gellid bod 100 arall y gellir rhoi premiwm arnynt.

O ganlyniad i hyn, mae'r Awdurdod yn bwriadu cynnal adolygiad treigl o'r Ynys gyfan dros y ddwy i dair blynedd nesaf i bennu prif breswylfa'r perchennog. Bydd yn gwneud hynny gan ddefnyddio'i adnodd ychwanegol ei hun a delir o'r premiwm a hefyd gan ddefnyddio partner o'r sector preifat sy'n defnyddio data credyd, setiau data eraill sydd ar gael yn fasnachol a dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bennu pa eiddo sy'n fwyaf tebygol o fod y brif breswylfa a, thrwy hynny, nodi pa achosion sy'n wahanol i gofnodion cyfredol y Cyngor.

Rhydd **Atodiad D** ddadansoddiad fesul cyngor tref / cymuned o nifer yr anheddau y rhoddir premiwm arnynt, wedi'i rannu rhwng ail gartrefi ac eiddo gwag tymor hir a bandiau y Dreth Gyngor ar ddiwedd Chwarter 2 2018/19.

**D. A fu gostyngiad yn sylfaen y Dreth Gyngor?**

Pan osododd y Pwyllgor Gwaith ei sylfaen y dreth am 2018/19 ar 27 Tachwedd 2017, fe wnaeth hynny yn unol â'r rhestr brisio dyddiedig 31 Hydref 2017. Yn yr un modd, bydd yn gosod sylfaen y Dreth Gyngor am 2019/20 ar restr brisio dyddiedig 31 Hydref 2018 . Pe byddid yn trosglwyddo eiddo o'r Dreth Gyngor i drethi Annomestig, byddai nid yn unig yn lleihau'r incwm a ddaw o'r premiwm ond byddai hefyd yn gostwng sylfaen y dreth gyffredinol.

Gallai unrhyw ostyngiad sylweddol yn sylfaen y dreth fod yn dystiolaeth i ddangos fod Trethdalwyr y Cyngor yn newid o'r dreth gyngor i drethi annomestig. Gwelwyd gostyngiad bychan o 0.07% yn sylfaen y dreth a osodwyd at ddibenion gosod treth am 2018/19 o'i gymharu â sylfaen y dreth am 2017/18. Er hynny, wrth gyfrifo elfen bremiwm sylfaen y dreth a roes gynnydd rhagamcanedig o 9.88%, nid oedd yn ddigonol i oresgyn symudiadau eraill yn sylfaen y dreth, megis cael gwared ag eiddo, gostyngiadau bandiau, cynnydd mewn disgowntiau neu eithriadau ar gyfer person sengl.

Yn ystod 2018/19, caiff symudiadau yn sylfaen y drethi ei fesur bob chwarter ac, o fis 7 ymlaen, bob mis. 550.75 oedd sylfaen drethi a gyfrifwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar gyfer yr elfen premiwm am 2018/19 ac, erbyn diwedd Chwarter 2 (30 Medi 2018), cyfrifir mai 588.89 fydd hwn (cynnydd o 6.5%).

30,222.56 oedd sylfaen y dreth a gyfrifwyd gan y Pwyllgor Gwaith am 2018/19 ar gyfer yr elfen o sylfaen drethu nad yw'n bremiwm ac, erbyn diwedd Chwarter 2 (30 Medi 2018) cyfrifir bod hwn yn 30,278.49 - (cynnydd o 0.2%) .

Erbyn diwedd Chwarter 2 (30 Medi 2018), amcangyfrifir bod y sylfaen drethu gyffredinol a osodwyd am 2018/19 wedi cynyddu 0.3% o 30,773.31 i 30,867.38.

Rhaid cyflwyno rhywfaint o rybudd o ran y ffigurau hyn gan fod rhagdybiaethau sylweddol wedi'u gwneud yng nghyswllt y cyfrifiad hwn i gymryd i ystyriaeth yr addasiadau a ragwelir mewn debyd a ddaw i mewn yn ystod misoedd y flwyddyn sy'n weddill a darpariaeth dyledion drwg ychwanegol a allai fod yn ofynnol, a allai fod yn wahanol pan gyfrifir sylfaen y dreth wirioneddol. Dadansoddir isod symudiadau yn sylfaen y dreth am 2018/19 (ac eithrio'r elfen premiwm) rhwng y cyfnod 1 Ebrill 2018 a 30 Medi 2018, sy'n dangos y meysydd symud yn seiliedig ar eiddo sydd cyfwerth â Band D gwirioneddol -

| **Disgrifiad** | **Cyfwerth â Band D** |
|---|---:|
| Eiddo newydd – band yn cynyddu – ailagor cyfrifon | +204 |
| Cael gwared â’r eiddo – band yn gostwng | -91 |
| Meddiannaeth newydd | +1,987 |
| Hen feddiannaeth | -2,012 |
| **Cyfanswm Addasiadau Debyd Gros** | **+88** |
| Gostyngiad i’r anabl | -6 |
| Eithriadau | -102 |
| Disgownt i Eiddo | -2 |
| Disgownt Personol | +55 |
| Disgownt a ddiffinnir yn Lleol | -1 |
| **Cyfanswm Addasiadau Debyd Net** | **-56** |
| **Cyfanswm Addasiadau Net** | **+32** |

Gostyngodd yr adolygiad o Ddisgownt Person Sengl, a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2018 ,y disgownt personol a ddyfarnwyd i 57 eiddo sydd cyfwerth â Band D. Pe na bai adolygiad o'r fath wedi'i gynnal, byddai sylfaen y dreth wedi gostwng 23 eiddo sydd cyfwerth â Band D, sef 0.07%. Mae adolygiadau o eithriadau a disgowntiau eiddo’n parhau.

**DD. A yw premiymau wedi llwyddo i ddod ag eiddo gwag tymor hir ac ail gartrefi yn ôl i ddefnydd a chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol?**

Nid yw premiymau’r Dreth Gyngor hyd yn hyn wedi llwyddo i ddod ag eiddo gwag tymor hir ac ail gartrefi yn ôl i ddefnydd yn yr ardaloedd sydd â niferoedd uchaf yr ail gartrefi a / neu niferoedd isaf y cartrefi ar brisiau tai chwartel isaf ac, o ganlyniad, nid ydynt wedi gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol yn y cyfryw ardaloedd. Fel yr amlygwyd yn rhan A o'r adroddiad hwn, roedd nifer uchaf yr ymholiadau gan brynwyr tro cyntaf cymwys oedd yn prynu yn gysylltiedig â phrynu eiddo o'r tu allan i'r ardaloedd hyn.

Mae'n ymddangos bod perchnogion eiddo yn y cyfryw ardaloedd yn barod i gwrdd â chost ychwanegol y premiwm ar ei lefel gyfredol.

**E. A yw premiymau wedi cael effaith ar y diwydiant twristiaeth lleol?**

Ymddengys nad oes fawr ddim effaith neu effaith nad oes modd ei fesur.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae hwn yn adroddiad sy'n cynnal adolygiad o benderfyniad polisi ac, er y rhestrir opsiynau, nid argymhellir unrhyw opsiwn penodol i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith ei gynnig i'r Cyngor llawn.

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Datgan prif ddeddfwriaeth mai penderfyniad i'r Cyngor llawn yw polisi'r dyfodol o ran premiymau'r Dreth Gyngor. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried yr opsiynau a restrir a chynghori ar gamau gweithredu priodol.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Nod Llywodraeth Cymru, wrth roi pwerau i awdurdodau lleol yng Nghymru i godi tâl premiwm ar y Dreth Gyngor, oedd y byddai'r pwerau hyn yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddod â chartrefi gwag tymor hir yn ôl i ddefnydd i ddarparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy ac i gynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol. Mae hyn yn gyson â nodau a blaenoriaethau'r Cyngor.

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Mae'r awdurdodau lleol yn cadw'r refeniw ychwanegol a gynhyrchir o godi premiwm y Dreth Gyngor i'w wario fel y dymunant, ond mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i helpu'r angen lleol am dai, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau.

| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Y Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol)** (mandadol) | Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Awdur yr Adroddiad |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldeb** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A
Atodiad B
Atodiad C
Atodiad CH
Atodiad D

| FF - | Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|---|

- Adroddiad i'r Cyngor llawn iddo’i ystyried 10 Mawrth 2016
- Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i diwygiwyd gan Adran 7 Ddeddf Tai (Cymru) 2014
- Rheoliadau Treth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) ( Cymru) 2015
- Gorchymyn Treth Gyngor (Anheddau Eithriedig) 1992
- Canllawiau Statudol gan Lywodraeth Cymru ar Weithredu Premiymau’r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Tymor Hir ac Ail Gartrefi yng Nghymru Rhagfyr 2015

# INCWM YCHWANEGOL PREMIWM - PREMIUM ADDITIONAL INCOME

| Eiddo<br>Dwelling | Nifer / Total | Cyfateb Band D Equivalent | Premiwm Ychwanegol / Additional Premium (%) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 25% | 30% | 35% | 40% | 50% | 60% | 75% | 100% |
| **Tai Gwag / Empty Homes** | 697 | 655 | £186,709 | £224,051 | £261,393 | £298,735 | £373,419 | £448,102 | £560,128 | £746,838 |
| **Llai lleihad i 80% o'r Sail y Dreth y Gyllideb a 98.5% raddfa gasglu / Less reduction to 80% Budget Tax base and 98.5% Collection Rate** | - | - | -£39,582 | -£47,499 | -£55,415 | -£63,332 | -£79,165 | -£94,998 | -£118,747 | -£158,330 |
| **Cyfanswm / Total** | | | **£147,127** | **£176,552** | **£205,978** | **£235,403** | **£294,254** | **£353,104** | **£441,381** | **£588,508** |
| | | | | | | | | | | |
| **Ail Dai<br>Second Homes** | 2,627 | 2,766 | £788,455 | £946,146 | £1,103,837 | £1,261,528 | £1,576,910 | £1,892,293 | £2,365,366 | £3,153,821 |
| **Llai lleihad i 80% o'r Sail y Dreth y Gyllideb a 98.5% raddfa gasglu / Less reduction to 80% Budget Tax base and 98.5% Collection Rate** | - | - | -£167,152 | -£200,583 | -234,013 | -£267,444 | -£334,305 | -£401,166 | -£501,4584 | -£668,610 |
| **Cyfanswm / Total** | 3,324 | 3,421 | **£621,303** | **£745,563** | **£869,824** | **£994,084** | **£1,242,605** | **£1,491,127** | **£1,863,908** | **£2,485,211** |

**Canrannau Premiynau Cynghorau Cymru / Welsh Councils Premiums Percentages (statswales.gov.wales)**

| | 2017 – 2018 | | 2018 – 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| **Name / Enw** | **Tai Gwag Hirdymor / Long Term Empty** | **Ail Dai / Second Homes** | **Tai Gwag Hirdymor / Long Term Empty** | **Ail Dai / Second Homes** |
| Ynys Môn/Isle of Anglesey | 25% | 25% | 25% | 25% |
| Gwynedd | 0% | 0% | 50% | 50% |
| Conwy① | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Dinbych/ Denbigh② | 0% | 0% | 50% | 0% |
| Fflint / Flint | 50% | 50% | 50% | 50% |
| Wrecsam / Wrexham | 50% | 50% | 50% | 50% |
| Ceredigion | 25% | 25% | 25% | 25% |
| Powys | 50% | 50% | 50% | 50% |
| Penfro /Pembroke③ | 0% | 50% | 0% | 50% |

**Nid yw gweddill Cynghorau Cymru yn codi premiwm /**
**All remaining Welsh Councils do not charge premiums.**

① O 1 Ebrill 2019 bydd Cyngor Conwy yn codi premiwm o 100% ar dai gwag hirdymor a 25% ar ail dai. /
From 1 April 2019 Conwy Council will be charging a premium of 100% on long term empty homes and 25% on second homes.

② O 1 Ebrill 2019 bydd Cyngor Dinbych yn codi premiwm o 50% ar ail dai. /
From 1 April 2019 Denbigh Council will be charging a 50% premium on second homes.

③ O 1 Ebrill 2019 bydd Cyngor Penfro yn codi premiwm o 25% ar eiddo gwag hirdymor. /
From 1 April 2019 Pembrokeshire Council will be charging a premium of 25% on long term empty property.

**ATODIAD C**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | |
| **Pwnc:** | **Benthyciadau ecwiti ar gyfer prynwyr tro cyntaf a Grantiau Tai Gwag a gyllidir drwy bremiwm y dreth gyngor ar Dai Gwag ac Ail Gartrefi.** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd A Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Gwenda Owen - Swyddog Tai Gwag**<br>Est 2283<br>gwendaowen@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Pawb** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo parhad y Polisi.
2. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo parhau y cyllid i gyflawni'r polisi.
3. Bod y Pwyllgor Gwaith, oherwydd y rhestr aros, yn ystyried cynyddu lefel y cyllid sydd ar gael i'r cynllun. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn am £340,000 ychwanegol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf er mwyn cynyddu nifer yr ymgeiswyr y gellir eu cynorthwyo.

**Rhesymau**

Mae tystiolaeth i ddangos bod y cynllun wedi cyflawni ei amcanion o ran

- ei fod wedi cefnogi prynwyr tro cyntaf i ddod yn berchnogion ar gartrefi y gallent eu fforddio ac mewn ardaloedd o'u dewis nhw.
- bod y defnydd gorau wedi'i wneud o'r stoc dai presennol drwy ddod â thai a fu'n wag am gyfnod hir ac angen ei adnewyddu yn ôl i ddefnydd, sydd yn aml iawn wedi bod yn amharu ar gymdogaethau.
- mae'n darparu gwerth ychwanegol drwy gefnogi mentrau bach a chanolig ac mae'n darparu buddion cymunedol eraill.

**Cefndir**

Yn dilyn y newidiadau deddfwriaethol a wnaed gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, rhoddwyd pwerau dewisol i Awdurdodau Lleol gael codi premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag tymor hir a hynny fel ffordd o'u cynorthwyo nhw i ddod ag eiddo a fu'n wag am gyfnod hir yn ôl i ddefnydd er mwyn sicrhau tai diogel a fforddiadwy a chynyddu'r lefelau o dai fforddiadwy a gwneud cymunedau'n fwy cynaliadwy.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith bremiwm y Dreth Gyngor o 25% ar eiddo a fu'n wag am gyfnod hir ac ail gartrefi. Ym mis Chwefror 2017, fe wnaethant hefyd gymeradwyo polisi ar gyfer gweithredu dau gynllun newydd er mwyn cefnogi prynwyr tro cyntaf lleol, i'w gyllido o'r premiwm ychwanegol:-

**a)** Grant i helpu prynwyr tro cyntaf brynu ac adnewyddu tŷ gwag; a
**b)** Benthyciadau ecwiti er mwyn helpu prynwyr tro cyntaf.

Ar y cychwyn, roedd y polisi wedi'i gyfyngu i ardaloedd cyngor cymuned penodol, a oedd â'r nifer uchaf o ail gartrefi a / neu y nifer isaf o gartrefi am brisiau tai chwartel isaf. Fodd bynnag, o ganlyniad i nifer uchel yr ymholiadau gan brynwyr tro cyntaf cymwys a oedd yn prynu o'r tu allan i'r ardaloedd penodol hynny, cafodd y cynllun ei ymestyn ledled Ynys Môn gan ddarparu cyfleoedd cyfartal a theg i brynu tai. (Penderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Deilydd Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau, Chwefror 2018).

**Cyllido'r Cynllun**

Mae'r siart isod yn darparu gwybodaeth am yr incwm ychwanegol a gasglwyd o ganlyniad i godi premiymau ychwanegol a'r dyraniad a ddefnyddiwyd i gyllido'r Cynllun.

| Cyfnod | Incwm Ychwanegol o ganlyniad i Bremiwm y Dreth Gyngor | | Cyllid a ddyrannwyd i'r Cynlluniau Tai Gwag | Cyllid a ddyrannwyd ar gyfer Swyddog Tai Gwag Cynorthwyol |
|---|---|---|---|---|
| | Tai Gwag Tymor Hir | Ail Gartrefi | | |
| **2017 – 2018** | £167,910 | £781,144 | £170,000 | £35,000 |
| **2018 - 2019** | £215,876 | £881,628 | £170,000 | £35,000 |
| **Cyfanswm** | £383,786 | £1,662,772 | £340,000 | £70,000 |

Cyfanswm y refeniw ychwanegol a gasglwyd dros y cyfnod o ddwy flynedd yw £2,005,882 ac, o'r ffigwr hwn, mae 16.95% wedi'i fuddsoddi yn y cynllun er mwyn cefnogi prynwyr tro cyntaf Ynys Môn.

O ganlyniad i'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael a'r ffaith bod y galw am y Grant Adnewyddu Tai Gwag ar gyfer Prynwyr Tro Cyntaf yn uwch na'r disgwyliad, mae lansiad y cynllun Benthyciadau Ecwiti wedi cael ei ohirio.

**Y "Grant Adnewyddu Tai Gwag ar gyfer Prynwyr Tro Cyntaf"**

Darparodd y cynllun hwn grant o hyd at £20,000 ar gyfer prynwyr lleol tro cyntaf sy'n prynu eiddo sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir ac sydd angen ei adnewyddu. Mae eiddo sydd angen eu trin fel arfer yn rhai rhatach er mwyn adlewyrchu'r gwaith sydd angen ei wneud ac, felly, maent yn fwy fforddiadwy i brynwyr tro cyntaf. Bydd y grant ar gyfer, ond nid wedi ei gyfyngu i, dalu am osod system wres ddigonol, ail-wefru, gwaredu tamprwydd, gosod cegin neu ystafell ymolchi newydd, darparu ffenestri a drysau newydd, inswleiddio, ail-gyflunio'r tu mewn y tŷ i'w wneud yn addas ar gyfer bywyd modern a phlastro a gwaith cyffredinol cysylltiedig.

**Galw** – Mae'r cynllun wedi bod yn boblogaidd â phrynwyr tro cyntaf, gyda'r galw yn fwy na'r cyllid sydd ar gael fel a welir yn y siart isod:-

| **Dadansoddiad o'r ymholiadau a'r ceisiadau am grant prynwyr tro cyntaf** | |
|---|---|
| Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd | 13 |
| Nifer y ceisiadau sy'n disgwyl i'r pryniant gwblhau | 5 |
| Nifer ar y rhestr aros petai cyllid ychwanegol ar gael cyn i'r pryniant gael ei gwblhau | 12 |
| Nifer yr ymholiadau anghymwys | 12 |

Mae'r rhai sy'n derbyn y grant yn gwerthfawrogi'r cynllun ac yn canmol ymdrechion y Cyngor i gefnogi pobl leol i brynu tŷ am y tro cyntaf.

Dywedodd un cwpwl ifanc: "Diolch i'r grant, rydym wedi gallu prynu ein tŷ cyntaf i'r teulu. Roedd yn rhaid i ni gynilo yn galed am flaendal ar yr un pryd â thalu rhent. Deg diwrnod ar ôl symud i mewn fe ddaethom â'n babi newydd adref i'n cartref hyfryd, cynnes a modern. Mae'n gynllun grêt."

**Gwariant a Ragwelir a Gwir Wariant 1 Tachwedd 2017 i 20 Gorffennaf 2018**

| | |
|---|---|
| Gwariant Ymrwymedig (Gwerth y ceisiadau a gymeradwywyd) | £239,533 |
| Ymrwymiad a amcangyfrifir i dalu am y ceisiadau sydd i ddod | £100,000 |
| Cyfanswm Gwariant Arfaethedig | £339,533 |
| Cyfartaledd grant a ddyfarnwyd | £18,425 |
| Gwir wariant fel ar 20.7.18 | £ 99,812 |
| Cyfanswm cyfraniad y prynwyr tro cyntaf eu hunain | £35,563 |
| Cyfartaledd cyfraniad y prynwyr tro cyntaf | £2,735.61 |

**Eiddo a gafodd eu dychwelyd i ddefnydd**


Fel ar 23 Gorffennaf 2018, mae saith eiddo wedi eu dychwelyd i ddefnydd, gyda saith arall yn cael eu trin ar hyn o bryd.

Erbyn diwedd Rhagfyr 2018, rhagwelir y bydd 18 o dai gwag wedi eu dychwelyd i ddefnydd ac, felly, bydd y cynllun hwn wedi cefnogi 18 o brynwyr tro cyntaf ar draws Ynys Môn i allu prynu tŷ eu hunain. Ar gyfartaledd, roedd eiddo wedi bod yn wag am gyfnod o 720 diwrnod.

**Lleoliad yr Eiddo sydd wedi'u Hadnewyddu**

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y tai gwag sydd un ai wedi eu hadnewyddu neu a fydd yn cael eu hadnewyddu o ganlyniad i'r cynllun.

Ffigwr 1





## Fforddiadwyedd

Cydnabyddir fod fforddiadwyedd yn rhwystr allweddol i allu bod yn berchen ar gartref. Cynhyrchodd y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS) erthygl ar fforddiadwyedd tai prynwyr tro cyntaf yng Nghymru a Lloegr yn 2017 a oedd yn cynnwys dadansoddiad o brisiau tai ac enillion darpar brynwyr tro cyntaf ynghyd â phrisiau prynu ac incwm prynwyr tro cyntaf blaenorol.


Roedd yr adroddiad yn dangos bod prynwyr tro cyntaf yng Nghymru a Lloegr, ar gyfartaledd, yn gwario 4.3 gwaith yn fwy na'u hincwm gros blynyddol ar brynu eiddo gyda morgais, i fyny o 4.2 yn 2016. Roedd y cymarebau yn is mewn awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn Ynys Môn, roedd y cyfartaledd rhwng 2.70 a 3.99 fel a welir yn Ffigwr 2 dros y dudalen.

Ffigwr 2.  Cymarebau fforddiadwyedd prynu 2017




Dangosodd dadansoddiad o gymhareb incwm/morgais ymgeiswyr am grantiau prynwyr tro cyntaf bod 5 o'r 14 o geisiadau a dderbyniwyd ychydig yn uwch na'r uchafswm o 3.99 a roedd pedwar ychydig yn is na'r isafswm.

Ffigwr 3




Mae'r erthygl ONS yn nodi nad yw'r cymarebau fforddiadwyedd ar gyfer prynu tŷ prynwr tro cyntaf yn dangos yr ar-gostau rheolaidd sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar dŷ am y tro cyntaf ar ôl ei brynu. Er enghraifft, nid ydynt yn dangos a yw canran yr incwm sy'n cael ei wario ar daliadau morgais yn is yng Nghymru ac felly nid yw'n glir a oes rhaniad daearyddol ran perchnogaeth tai yn gyffredinol yn ogystal â fforddiadwyedd prynu tŷ.

Cyfartaledd incwm aelwyd yr ymgeiswyr am grant oedd £33,326. O'r pum ymgeisydd oedd â chymhareb incwm/morgais uwch na 3.99, disgynnodd y cyfartaledd incwm i £26,916 a hynny'n bennaf gan fod pedwar yn geisiadau gan bobl sengl yn hytrach na cheisiadau ar y cyd. Mae hyn yn dangos bod ymgeiswyr sengl yn gwario cyfran uwch o'u hincwm ar y morgais a bod ganddynt lawer llai o incwm i'w wario ar y gost o fod yn berchen ar dŷ.

**Tymor y Morgais**

Yn draddodiadol, mae prynwyr tai wedi cymryd morgeisi 25 mlynedd ond mae prisiau tai uwch a phrofion fforddiadwyedd tynnach wedi gwthio benthycwyr a broceriaid i ffafrio morgeisi am gyfnodau hirach. Yn ôl yr Halifax, mae prynwyr tro cyntaf yn troi yn gynyddol at forgeisi 35 mlynedd oherwydd po hiraf yw tymor y morgais, rhataf yn y byd yw'r ad-daliadau gan eu bod wedi rhannu dros fwy o fisoedd. Fodd bynnag, bydd cost cyffredinol y benthyciad yn uwch gan y bydd yr ymgeisydd yn talu llog am gyfnod hirach.

Cyfartaledd y tymor morgais ar gyfer ymgeiswyr grant oedd 32.07 mlynedd fel a welir yn ffigwr 4 isod. Mae hyn yn dangos fod prynwyr tro cyntaf yn Ynys Môn sydd wedi elwa o'r cynllun grant hwn wedi gorfod cynyddu tymor eu morgais er mwyn prynu'r eiddo ac y byddant, felly, yn talu mwy am y benthyciad gan y byddant yn talu llog am gyfnod hirach.

Ffigwr 4





**Blaendaliadau**

Cynilo i sicrhau blaendal ar dŷ yw un o'r rhwystrau mwyaf ar gyfer gallu bod yn berchen ar dŷ. Mae darparu brynwyr tro cyntaf sydd â blaendaliadau llai yn llai tebygol o gael eu cymeradwyo ar gyfer morgais, ac felly'n llai tebygol o brynu cartref. Mae prisiau is y tai sydd angen eu hadnewyddu wedi galluogi prynwyr tro cyntaf ar incwm isel i allu cynilo yn ddigonol er mwyn gallu rhoi'r 5% i 10% angenrheidiol i sicrhau'r eiddo.

Roedd pump o'r ymgeiswyr am grant wedi derbyn rhan neu'r cyfan o'r blaendal gan aelod o'r teulu, gan ddangos ymhellach y trafferthion y mae prynwyr tro cyntaf yn eu hwynebu wrth geisio cynilo i gael blaendal.

Ffigwr 5




**Buddion Ychwanegol y Cynllun**

Mae'r cynllun yn darparu buddion ychwanegol:-

**Gwell effeithlonrwydd ynni**

Ar ôl cwblhau'r gwaith adnewyddu, fe amcangyfrifir y bydd mesurau a fydd yn gwella'r lefelau effeithlonrwydd ynni, e.e. boeler effeithiol, deunydd inswleiddio a drysau a ffenestri (graddfa EPC D ac uwch) wedi cael eu gosod yn dros 95% o'r eiddo, gan olygu y bydd costau ynni yn is i'r perchnogion. Yn ogystal, mae'r holl eiddo wedi eu gwella a'u moderneiddio, gan olygu llai o gostau cynnal a chadw i'r perchnogion yn y dyfodol ac y bydd gwerth y tŷ wedi cynyddu o ganlyniad. Gallai hyn helpu'r rhai hynny a fydd, yn y dyfodol, angen symud i eiddo mwy addas petai eu sefyllfaoedd yn newid gan y bydd ganddynt fwy o ecwiti y gallent ei ryddhau. (Byddai'n rhaid ad-dalu'r grant yn llawn petai'r eiddo yn cael ei werthu o fewn pum mlynedd i ddyddiad cwblhau'r gwaith a gefnogwyd gan y grant.

**Creu incwm i fusnesau lleol**

Mae tri deg pump o fusnesau bach/canolig wedi elwa o waith sydd wedi'i greu gan y cynllun – tri deg o Ynys Môn a phump o Wynedd. Mae hyn yn dangos gwerth ychwanegol gan fod y £340,000 o gyllid grant nid yn unig wedi cefnogi prynwyr tro cyntaf ond mae wedi'i fuddsoddi ymhellach yn yr economi leol gan ddarparu cyfleoedd gwaith i bobl leol.

Ymhellach, dywedodd un arwerthwr tai lleol "Mae nifer o dai yn yr ardal leol wedi elwa yn allanol o Gynllun Atgyweirio Grŵp. Fodd bynnag, yn fewnol, maent angen eu trin yn gyfan gwbl – ail-wefru, gwres canolog, diweddaru ystafelloedd ymolchi / ceginau. Mae tai a oedd yn ddeniadol i landlordiaid masnachol yn unig yn y gorffennol bellach yn denu prynwyr tro cyntaf i allu cystadlu am y tai hyn a'u troi yn gartrefi. Cynllun bach sydd â manteision mawr!"

**Arall**

Drwy alluogi prynwyr tro cyntaf i brynu eu tŷ cyntaf yn yr ardal y maent yn dymuno byw ynddi, maent yn gallu aros yn eu cymunedau ac yn agos at rwydweithiau teuluol, sydd yn hynod bwysig i deuluoedd ifanc sydd yn aml yn dibynnu ar eu teuluoedd am gymorth gyda gofal plant.

Mae'r gwelliant i gyflwr ac ymddangosiad allanol yr eiddo yn gwella'r gymuned ac yn gwella stoc dai preifat ar yr Ynys.

Bydd gwerthwyr eiddo yn elwa yn anuniongyrchol o'r cynllun gan fod tai sydd angen eu trin yn gallu bod yn anoddach i'w gwerthu. Gall y ffaith bod grant ar gael fod o gymorth i eiddo gael eu gwerthu.

**Cyfleoedd i Bobl Ifanc fod yn Berchen ar Dai**

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol (ONS), gwelwyd gostyngiad yn nifer yr oedolion ifanc sy'n berchen ar dai. Roedd bron i hanner y rhai hynny rhwng 20 a 24 yn byw gyda'i rhieni yn 2015 o gymharu ag un rhan o bump o bobl ifanc rhwng 25 a 29 oed.

Fe wnaeth canran yr oedolion ifanc sy'n berchen ar eu tai eu hunain ostwng o 55% yn 1996 i 30% yn 2015 ar gyfer pobl rhwng 25 a 29 oed; ac o 68% i 46% ar gyfer rhai rhwng 30 a 34 oed.

Dangosodd dadansoddiad o gyfeiriadau presennol yr ymgeiswyr am grant fod 8 yn byw gyda'u rhieni, roedd 5 yn byw yn y sector rhent preifat ac 1 yn byw mewn llety dros dro. Nododd y rhai hynny yn y sector rhent preifat y byddai eu taliadau morgais un ai yr un peth neu'n is na'r rhent yr oeddent yn ei dalu ar hyn o bryd ac mai dyna'r rheswm pam eu bod yn prynu eu tŷ eu hunain. Bu hyn o gymorth i sicrhau bod gan y rhai hynny ar incwm isel fwy o incwm i'w wario.

**CASGLIADAU AC ARGYMHELLION**

Mae'r cynllun wedi bodloni ei amcanion allweddol o ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd tra'n cefnogi prynwyr tro cyntaf i gael eu troed ar yr ysgol eiddo.

Mae poblogrwydd y cynllun yn amlwg wrth i'r galw fod yn llawer uwch na'r cyllid sydd ar gael. Argymhellir, felly, y dylai'r Cyngor ystyried cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y cynllun ac ymchwilio i gyfleoedd am gyllid allanol ar gyfer y cynllun. Yr argymhelliad yw dyrannu £340,000 yn ychwanegol yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Er mwyn sicrhau bod y polisi yn parhau i fod â chymeradwyaeth a chefnogaeth lawn y Pwyllgor Gwaith. |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Cytunodd y Pwyllgor Gwaith, ym mis Mawrth 2016 i ddefnyddio ei bwerau dewisol i godi premiwm y Dreth Gyngor ar anheddau a oedd wedi bod yn wag yn y tymor hir ac ail gartrefi o 1 Ebrill 2017. Cytunodd y Pwyllgor Gwaith fuddsoddi yn y Cynlluniau ym mis Chwefror 2017. |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Bydd y cynlluniau yn parhau i gael eu cyllido drwy ddefnyddio'r arian ychwanegol a gesglir drwy bremiwm y Dreth Gyngor ar Dai Gwag ac Ail Gartrefi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151**(mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dim |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru – Llywodraeth Cymru, Ionawr 2016<br><br>Polisi ar y cymorth sydd ar gael i brynwyr tro cyntaf lleol a ariennir o Bremiwm y Dreth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi |

**ATODIAD / APPENDIX CH**

## AIL GARTREFI – EITHRIADAU /

| Dosbarthiadau Eiddo | Diffiniad | Nifer |
|---|---|---|
| Dosbarth 1 | Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth: amser cyfyngedig am flwyddyn | 7 |
| Dosbarth 2 | Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnaa fel rhai ar osod : amser cyfyngedig am flwyddyn | 2 |
| Dosbarth 3 | Eithriad ar gyfer anexsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu rttrin fel rhan o'r prif anedd | 4 |
| Dosbarth 4 | Eithriad ar gyfer anheddau, fyddia'n unig neu brif breswylfa rhywun os na fyddent yn preswylio mewn llety'r Lluoedd Arfog | 3 |
| Dosbarth 5 | Eithriad ar gyfer safleoedd carafannau ac angorfeydd cychod | 3 |
| Dosbarth 6 | Eithriad ar gyfer cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ynddynt ar hyd y flwyddyn | 84 |
| Dosbarth 7 | Eithriad ar gyfer anheddau sy'n gysylltiedig â gwaith | 46 |
| **CYFANSWM** | | **149** |

## TAI GWAG HIRDYMOR – EITHRIADAU /

| Dosbarthiadau Eiddo | Diffiniad | Nifer |
|---|---|---|
| Dosbarth 1 | Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth: amser cyfyngedig am flwyddyn | 21 |
| Dosbarth 2 | Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnaa fel rhai ar osod : amser cyfyngedig am flwyddyn | 4 |
| Dosbarth 3 | Eithriad ar gyfer anexsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r prif anedd | 1 |
| Dosbarth 4 | Eithriad ar gyfer anheddau, fyddia'n unig neu brif breswylfa rhywun os na fyddent yn preswylio mewn llety'r Lluoedd Arfog | 0 |
| **CYFANSWM** | | **26** |

**AIL DAI / SECOND HOMES**

| Cyngor Tref / Cymuned – Town / Community Council | A | B | C | D | E | F | G | H | I | Cyfanswm / Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberffarw | 2 | 14 | 8 | 9 | 6 | 3 | 1 | 0 | 0 | **43** |
| Amlwch | 27 | 22 | 14 | 18 | 19 | 5 | 0 | 0 | 0 | **105** |
| Biwmares/Beaumaris | 3 | 7 | 22 | 56 | 26 | 18 | 8 | 0 | 1 | **141** |
| Bodedern | 3 | 2 | 1 | 3 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | **13** |
| Bodffordd | 4 | 4 | 6 | 4 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | **21** |
| Bodorgan | 0 | 9 | 11 | 8 | 7 | 5 | 1 | 1 | 1 | **43** |
| Bryngwran | 3 | 2 | 4 | 4 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | **15** |
| Caergybi/Holyhead | 72 | 38 | 23 | 12 | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 | **151** |
| Cwm Cadnant | 1 | 3 | 4 | 2 | 14 | 12 | 12 | 2 | 6 | **56** |
| Cylch y Garn | 3 | 8 | 7 | 8 | 11 | 5 | 3 | 1 | 0 | **46** |
| Llanbadrig | 10 | 15 | 28 | 26 | 16 | 4 | 1 | 1 | 0 | **101** |
| Llanddaniel | 0 | 4 | 2 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **13** |
| Llanddona | 3 | 6 | 6 | 10 | 8 | 9 | 3 | 1 | 1 | **47** |
| Llanddyfnan | 0 | 2 | 4 | 6 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | **15** |
| Llaneilian | 5 | 2 | 12 | 20 | 9 | 4 | 0 | 1 | 0 | **53** |
| Llanerchymedd | 3 | 5 | 6 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | **16** |
| Llaneugrad | 11 | 2 | 0 | 4 | 6 | 1 | 0 | 0 | 0 | **24** |
| Llanfachraeth | 2 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | **6** |
| Llanfaelog | 7 | 19 | 89 | 78 | 75 | 44 | 30 | 6 | 0 | **348** |
| Llanfaethlu | 1 | 2 | 6 | 8 | 7 | 2 | 5 | 0 | 0 | **31** |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 12 | 7 | 34 | 85 | 64 | 16 | 7 | 0 | 0 | **225** |
| Llanfairpwllgwyngyll | 1 | 3 | 1 | 4 | 8 | 2 | 1 | 0 | 0 | **20** |
| Llanfair yn Neubwll | 0 | 16 | 4 | 5 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | **31** |
| Llanfihangel Ysceifiog | 0 | 5 | 7 | 7 | 5 | 2 | 2 | 0 | 0 | **28** |
| Llangefni | 15 | 9 | 7 | 8 | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 | **46** |
| Llangoed | 1 | 7 | 18 | 21 | 12 | 5 | 2 | 3 | 0 | **69** |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 4 | 3 | 1 | 4 | 1 | 4 | 0 | 0 | 0 | **17** |
| Llanidan | 3 | 4 | 9 | 5 | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 | **25** |
| Mechell | 6 | 8 | 7 | 6 | 4 | 2 | 1 | 0 | 0 | **34** |
| Moelfre | 6 | 7 | 19 | 71 | 25 | 6 | 1 | 0 | 0 | **135** |
| Penmynydd | 2 | 1 | 8 | 5 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | **19** |
| Pentraeth | 10 | 15 | 19 | 10 | 5 | 3 | 3 | 1 | 0 | **66** |
| Porthaethwy/Menai Bridge | 8 | 8 | 21 | 17 | 17 | 6 | 2 | 0 | 1 | **80** |
| Rhoscolyn | 4 | 3 | 11 | 15 | 16 | 14 | 7 | 2 | 2 | **74** |
| Rhosybol | 3 | 2 | 2 | 11 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | **24** |
| Rhosyr | 2 | 13 | 15 | 25 | 10 | 7 | 1 | 1 | 0 | **74** |
| Trearddur | 6 | 18 | 75 | 64 | 61 | 44 | 23 | 11 | 3 | **305** |
| Tref Alaw | 0 | 2 | 1 | 3 | 7 | 2 | 0 | 0 | 0 | **15** |
| Trewalchmai | 2 | 1 | 0 | 6 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | **10** |
| Y Fali/Valley | 3 | 5 | 13 | 8 | 6 | 7 | 0 | 0 | 0 | **42** |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **248** | **304** | **525** | **664** | **472** | **246** | **121** | **31** | **16** | **2,627** |

**ATODIAD / APPENDIX D**

**TAI GWAG HIRDYMOR / LONG-TERM EMPTY PROPERTY**

| Cyngor Tref/Cymuned - Town/Community Council | A | B | C | D | E | F | G | H | I | Cyfanswm Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberffarw | 4 | 2 | 1 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | **10** |
| Amlwch | 4 | 15 | 8 | 3 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | **34** |
| Biwmares/Beaumaris | 2 | 2 | 5 | 7 | 2 | 3 | 2 | 0 | 0 | **23** |
| Bodedern | 3 | 3 | 1 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | **11** |
| Bodffordd | 1 | 2 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | **6** |
| Bodorgan | 0 | 2 | 1 | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | **9** |
| Bryngwran | 2 | 1 | 2 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | **8** |
| Caergybi/Holyhead | 48 | 25 | 14 | 5 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | **95** |
| Cwm Cadnant | 2 | 2 | 2 | 0 | 3 | 4 | 0 | 2 | 0 | **15** |
| Cylch y Garn | 1 | 1 | 3 | 5 | 1 | 2 | 0 | 1 | 0 | **14** |
| Llanbadrig | 6 | 6 | 6 | 7 | 3 | 0 | 3 | 0 | 0 | **31** |
| Llanddaniel | 1 | 3 | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | **7** |
| Llanddona | 0 | 1 | 3 | 5 | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | **13** |
| Llanddyfnan | 1 | 3 | 1 | 2 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | **10** |
| Llaneilian | 3 | 1 | 3 | 4 | 5 | 1 | 1 | 1 | 0 | **19** |
| Llanerchymedd | 4 | 3 | 1 | 3 | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 | **16** |
| Llaneugrad | 3 | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | **7** |
| Llanfachraeth | 0 | 2 | 1 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | **5** |
| Llanfaelog | 0 | 11 | 6 | 1 | 6 | 1 | 2 | 0 | 0 | **27** |
| Llanfaethlu | 1 | 2 | 1 | 3 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | **12** |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 2 | 3 | 4 | 9 | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 | **24** |
| Llanfairpwllgwyngyll | 0 | 0 | 4 | 5 | 4 | 2 | 0 | 0 | 0 | **15** |
| Llanfair yn Neubwll | 1 | 7 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **11** |
| Llanfihangel Ysceifiog | 1 | 2 | 6 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | **12** |
| Llangefni | 32 | 5 | 9 | 5 | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 | **56** |
| Llangoed | 1 | 5 | 5 | 3 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | **16** |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 2 | 1 | 3 | 3 | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | **12** |
| Llanidan | 2 | 2 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **8** |
| Mechell | 1 | 13 | 4 | 1 | 0 | 3 | 2 | 0 | 0 | **24** |
| Moelfre | 0 | 3 | 1 | 3 | 4 | 0 | 1 | 0 | 0 | **12** |
| Penmynydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | **1** |
| Pentraeth | 5 | 6 | 2 | 3 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | **17** |
| Porthaethwy/ Menai Bridge | 6 | 3 | 5 | 5 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | **22** |
| Rhoscolyn | 1 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | **4** |
| Rhosybol | 1 | 1 | 1 | 3 | 2 | 4 | 0 | 0 | 0 | **12** |
| Rhosyr | 2 | 6 | 9 | 8 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | **29** |
| Trearddur | 5 | 0 | 6 | 3 | 3 | 7 | 2 | 0 | 0 | **26** |
| Tref Alaw | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 3 | 2 | 0 | 0 | **9** |
| Trewalchmai | 0 | 2 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **6** |
| Y Fali/Valley | 2 | 1 | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | **9** |
| **Cyfanswm / Total** | **150** | **149** | **130** | **119** | **80** | **43** | **22** | **4** | **0** | **697** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **12 TACHWEDD 2018** |
| **Pwnc:** | **CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2019/20** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN W WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>mjfi@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn tan 27 Chwefror 2019. Fodd bynnag, argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith, am rŵan, yn cymeradwyo'r canlynol: -

**(i)** Peidio â dyrannu'r grantiau sydd wedi eu hymgorffori yn y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) i gyllidebau'r gwasanaethau perthnasol oherwydd caniatawyd ar gyfer hynny yn y gyllideb ddigyfnewid (para 7.5;

**(ii)** Cymeradwyo cyllideb ddisymud o £137.402m ar gyfer 2019/20 ac y dylai hyn fod yn sail ar gyfer cyllideb refeniw 2019/20 (para 8.1);

**(iii)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu ar y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus (para 10.2);

**(iv)** Ar ôl caniatáu ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor, dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio gwneud digon o arbedion yn 2019/20 i gydbwyso'r gyllideb refeniw heb orfod defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac er mwyn sicrhau bod yr arbedion y mae angen eu gwneud yn 2019/20 yn gyraeddadwy (para 10.3);

**(v)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn ceisio barn y cyhoedd ar yr arbedion arfaethedig.

Mae'r adroddiad manwl ar y gwaith o baratoi'r gyllideb ddisymud ar gyfer 2019/20, y setliad dros dro a chyllido'r bwlch yn y gyllideb ynghlwm yn Atodiadau 1-4.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae hwn yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)**(mandadol) | Mae sylwadau'r UDA wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Bu'r pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystyried yr adroddiad ar y gyllideb yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2018. Roedd yr Aelodau'n glir ynghylch yr her ariannol a wynebai'r Cyngor yn 2019/20 a chytunwyd fel Pwyllgor y dylent ymateb yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru gan fynegi eu siom gyda'r setliad dros dro a phwyso am gyllid ychwanegol yn y setliad terfynol. O ran sut y dylai'r Cyngor gau'r bwlch ariannol, penderfynodd y Pwyllgor argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn derbyn y gyllideb ddigyfnewid a pheidio â gofyn i wasanaethau ddod o hyd i arbedion pellach na defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor fel ffordd o gau'r bwlch ariannol. Ni argymhellodd y Pwyllgor Sgriwtini ar lefel benodol o gynnydd yn y Dreth Gyngor y dylai'r Pwyllgor Gwaith ymgynghori yn ei gylch ond penderfynodd y dylai'r Pwyllgor Gwaith droi at gynyddu y Dreth Gyngor a'r 2il Gartrefi/Premiwm Tai Gwag fel y dull o gau'r bwlch ariannu a chydbwyso'r gyllideb. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad 1 - Adroddiad ar y Gyllideb Refeniw Ddrafft ar gyfer 2019/20
- Atodiad 2 - Dadansoddiad o Symudiadau o'r Gyllideb Refeniw Derfynol ar gyfer 2018/19 i Gyllideb Ddisymud 2019/20
- Atodiad 3 - Cyllideb Ddisymud 2019/20 fesul Gwasanaeth
- Atodiad 4 - Arbedion Posibl yn y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2019/20

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cynllun Ariannol Tymor Canol 2019/20 – 2021/22 - Gweler Rhaglen Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 17 Medi, 2018 - Eitem 6

**ATODIAD 1**

**CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2019/20**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1.** Mae'r adroddiad canlynol yn nodi cyllideb refeniw dros dro y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2019/20. Caiff y gyllideb ei pharatoi yn seiliedig ar dybiaethau a nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2018, y setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 9 Hydref 2018 a'r arbedion refeniw arfaethedig a nodwyd gan y gwasanaethau unigol ac a drafodwyd yn y gweithdai amrywiol a gynhaliwyd yn ystod yr haf.

**1.2.** Yna, bydd y gyllideb dros dro a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith yn destun proses ymgynghori cyhoeddus ffurfiol a fydd yn rhedeg o 13 Tachwedd 2018 i 29 Rhagfyr 2018.

**1.3.** Ar ôl derbyn ffigyrau'r setliad terfynol ar ddiwedd mis Rhagfyr 2018, bydd y gyllideb terfynol arfaethedig yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Sgriwtini ym mis Chwefror 2019, bydd yn cael ei argymell ar gyfer ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror 2019 a bydd y gyllideb derfynol ar gyfer 2019/20 yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019.

## 2. PRIF DYBIAETHAU YN CODI O'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL

**2.1** Yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol, nodir nifer o dybiaethau ac mae'r rhain wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth weithio allan y gyllideb ddisymud ar gyfer 2019/20. Mae'r gyllideb ddisymud yn gyllideb sy'n darparu adnoddau i weithredu gwasanaethau ar lefel 2018/19 ond wedi ei diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau y gwyddys amdanynt ac sydd y tu allan i reolaeth y gwasanaethau (newidiadau ymrwymedig) ac i adlewyrchu'r costau yn 2019/20.

**2.2.** Mae'r tybiaethau hyn wedi cael eu ffactora i mewn i'r gyllideb ddisymud ynghyd â newidiadau manylach (newidiadau ymrwymedig) sy'n caniatáu ar gyfer cynnydd y gwyddys amdano mewn costau, e.e. ymrwymiadau contractyddol a mân newidiadau i'r gyllideb. Mae'r gyllideb ddisymud hefyd yn caniatáu ar gyfer cyllid ychwanegol at gyfer y Gwasanaethau Plant ac Addysg Arbennig, newidiadau y gwyddys amdanynt o ran cyllid grant a mân newidiadau i'r gyllideb y tybir eu bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cyllideb y Cyngor yn adlewyrchu'n gywir y costau y bydd yn eu hwynebu yn 2019/20.

## 3. NEWIDIADAU YMRWYMEDIG

**3.1** Newidiadau ymrwymedig yw'r diwygiadau sy'n cael eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio'r gyllideb ddisymud ac maent yn adlewyrchu cynnydd neu ostyngiad mewn costau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor neu'r gwasanaeth unigol. Gall y newidiadau hyn gynnwys eitemau o gyllid unwaith ac am byth sydd eu hangen neu sy'n syrthio allan o'r gyllideb, costau sy'n deillio o newidiadau deddfwriaethol, newidiadau mewn costau sy'n codi o ganlyniad i ymarferiad tendro, costau cyllido cyfalaf ac ati. Mae cyfanswm yr addasiadau a wnaed i'r gyllideb yn £926k, a cheir manylion am y prif newidiadau yn y paragraffau isod.

### 3.2. Cyllido Cyfalaf

Yn 2018/19, cymeradwyodd y Cyngor y newid ym mholisi Darpariaeth Refeniw Isaf y Cyngor (MRP) gyda'r MRP ar fenthyciadau hanesyddol yn cael ei gyfrifo fel 2% o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) ar ddull llinell syth yn hytrach na 4% o'r CFR ar ddull lleihau balans. Byddai'r MRP ar fenthyciadau newydd yn seiliedig ar oes yr ased yn hytrach na chanran o'r CFR. Ystyriwyd bod y polisi hwn yn fwy darbodus oherwydd byddai'n sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer talu dyledion hanesyddol yn ôl dros gyfnod o 50 mlynedd yn hytrach na gorfod cael darpariaeth barhaus.

Canlyniad y newid yw bod yr MRP ar gyfer benthyciadau hanesyddol yn gyson bob blwyddyn ac yn ac yn is yn y blynyddoedd cyntaf na'r cyfraddau dan y polisi blaenorol. Yn ystod 2018/19, gwnaed gostyngiad o £1m yn y gyllideb MRP i adlewyrchu'r newid hwn ac yn sgil y newid hwn, ynghyd â benthyca llai na'r disgwyl, bydd angen gwneud gostyngiad pellach o £506k yn y gyllideb cyllido cyfalaf. Mae'r newid i'r gyllideb hefyd yn cymryd i ystyriaeth y cynnydd yn yr MRP a chostau'r llog mewn perthynas ag ysgolion yr 21ain Ganrif ynghyd ag unrhyw gynnydd yn y cyfraddau llog ar unrhyw fenthyciadau newydd a gymerir. Yn ogystal, ychwanegwyd £15k at y gyllideb ar gyfer llog a dderbyniwyd a hynny er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yng nghyfraddau llog sylfaenol y banciau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cyfan yn golygu gostyngiad o £521k yn y gyllideb cyllido cyfalaf.

### 3.3. Niferoedd Disgyblion

Bob blwyddyn, cymerir effaith y newid mewn niferoedd disgyblion yn y sectorau cynradd ac uwchradd i ystyriaeth fel rhan o'r broses o osod y gyllideb. Yn achos 2018/19, mae hyn wedi arwain at gynnydd o £58k yn y sector uwchradd ond gostyngiad o £136k yn y sector cynradd.

Hyd at 2018/19, roedd Ysgol Arbennig y Cyngor (Canolfan Addysg Y Bont) yn cyllido 85 o ddisgyblion. Fel rhan o gyllideb 2018/19, cafodd swm o £78k ei ychwanegu er mwyn cyllido 5 o ddisgyblion ychwanegol. Ym mis Medi 2018, roedd nifer y disgyblion wedi codi i 104, sy'n golygu bod yr ysgol yn wynebu cynnydd yn ei chostau (staff dysgu a staff cymorth ychwanegol). Nodwyd y pwysau hyn ar y gyllideb yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2018. Mae £196k ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i'r gyllideb berthnasol er mwyn cwrdd â'r pwysau cost ychwanegol hyn.

### 3.4. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Hyd at 2013/14, roedd trethdalwyr cymwys yn derbyn gostyngiad yn eu biliau Treth Gyngor drwy'r system fudd-daliadau ar ffurf Budd-dal y Dreth Gyngor a gyllidwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yn 2013/14, disodlwyd Budd-dal y Dreth Gyngor gan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, gyda'r cyllid ar gyfer y cynllun yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cymorth Refeniw. Ar y cychwyn, roedd y cynllun yn cael ei gyllido'n llawn ond, gan fod lefel y Dreth Gyngor wedi codi a nifer yr hawlwyr wedi newid ers 2013/14, bu'n rhaid i'r Cyngor ddarparu cyllid ychwanegol i gwrdd â chost y cynllun (yn ychwanegol at y swm a ddarperir yn y Grant Cymorth Refeniw).

Ar gyfer 2019/20, mae'r gofyniad cyllidebol wedi cael ei ailasesu gan gymryd i ystyriaeth lefel bresennol y gwariant a chynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 (yn seiliedig ar y dybiaeth o gynnydd o 5% yn y CATC). Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o £360k yn y gyllideb, sy'n dod â chyfanswm y gyllideb gyffredinol i £5.164m.

Y prif yrrwr ar gyfer y gyllideb hon yw nifer yr achosion ac mae wedi gostwng yn ystod y 2 i 3 blynedd diwethaf. Fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch Brexit ac effaith hynny ar yr economi, mae'n anodd darogan yr effaith a gaiff hyn o ran nifer yr achosion ac mae'n bosibl y gallai gynyddu yn y tymor byr gan arwain at gostau ychwanegol nad oes darpariaeth wedi'i gwneud ar eu cyfer yn y gyllideb ddisymud.

### 3.5. Ardoll Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae'r Gwasanaeth Tân yn codi ardoll bob blwyddyn sy'n cael ei ddyrannu ar draws y chwe Awdurdod yng Ngogledd Cymru yn seiliedig ar nifer y boblogaeth a fydd yn amrywio bob blwyddyn rhwng y 6 awdurdod. Yn 2017/18, gosododd y Gwasanaeth Tân strategaeth 3 blynedd gyda chynnydd o 4% yn yr ardoll ar gyfer 2017/18 gyda'r arian wrth gefn i gael ei ddefnyddio yn 2018/19 ac yna ostyngiad yn y gwasanaeth yn ardal Wrecsam yn 2019/20. Fodd bynnag, ni chafodd y strategaeth ei mabwysiadu gan y Gwasanaeth Tân ac, o ganlyniad, gwelwyd cynnydd o 4% yn yr ardoll ar gyfer 2017/18 a 1.3% yn 2018/19. Mae'r Gwasanaeth Tân yn awr yn ymgynghori ar gynnydd pellach o 5.7% yn yr ardoll yn 2019/20, sy'n cyfateb i £190k ychwanegol yn yr ardoll ar gyfer Ynys Môn. Ni fydd y penderfyniad terfynol ar yr ardoll yn cael ei wneud tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ond gwnaed darpariaeth ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn y gyllideb ddisymud.

### 3.6. Ysgol Santes Dwynwen

Bydd adeiladu Ysgol Santes Dwynwen yn arwain at gostau cyllido cyfalaf ychwanegol i’r Cyngor a gwnaed darpariaeth ar gyfer hynny (gweler paragraff 3.2). Fodd bynnag, mae cau’r pedair ysgol (Ysgol Niwbwrch, Ysgol Dwyran, Ysgol Llangaffo ac Ysgol Bodorgan) wedi creu arbediad refeniw o £206k sydd wedi cael ei dynnu o gyllideb yr Ysgolion Cynradd, fodd bynnag, mae £81k o’r arbediad hwn wedi cael ei drosglwyddo i’r gyllideb Addysg Ganolog i gwrdd â’r costau cludiant ychwanegol. Mae’r arbediad refeniw net o £125k yn cyfrannu tuag at gostau cyllido cyfalaf ychwanegol yr ysgol newydd a gwnaed darpariaeth ar gyfer hynny yn y gyllideb cyllido cyfalaf (a nodwyd ym mharagraff 3.2).

### 3.7. Pensiynau Athrawon

Bydd ail-brisiad pum mlynedd Cronfa Bensiynau’r Athrawon yn cael ei gynnal yn 2019, gyda’r cyfraddau ar gyfer cyfraniadau newydd y cyflogwyr yn cael eu pennu ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 ymlaen. Bydd canran cyfraniad y cyflogwr yn codi o 16.48% i 23.6% ond mae’r gweithrediad wedi cael ei ohirio hyd fis Medi 2019. Bydd hyn yn golygu cynnydd o £802k yng nghostau pensiynau’r athrawon.

### 3.8. Gwasanaethau Oedolion

I raddau helaeth, costau staffio yw’r costau a wynebir gan ddarparwyr allanol gwasanaethau byw â chymorth, gofal preswyl a nyrsio a gofal cartref, gyda’r mwyafrif o’r staff a gyflogir gan y darparwyr yn derbyn y cyflog byw cenedlaethol. Yn 2019/20, bydd y cyflog byw cenedlaethol yn codi o £7.83 yr awr i £8.20 yr awr (cynnydd o 4.7%). Yn ychwanegol at hyn, bydd cyfraniad y cyflogwr tuag at bensiynau yn codi o 2% i 3%. Bydd y Cyngor dan gryn bwysau i gyllido’r costau ychwanegol hyn. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gost ychwanegol, yn uwch na chwyddiant, yn £114k a gwnaed darpariaeth ar gyfer hyn yn y gyllideb ddisymud.

### 3.9. Llety â Chymorth

Pan mae person sy’n hawlio Budd-dal Tai yn byw mewn llety â chymorth a ble mae’r landlord yn landlord cymdeithasol cofrestredig (RSL), gall y Cyngor adennill y budd-dal llawn drwy’r hawliad cymhorthdal ar yr amod bod y rhent yn rhesymol. Fodd bynnag, os yw’r person sy’n hawlio’r budd-dal yn denant sefydliad nad yw’n RSL (sefydliad trydydd sector neu wirfoddol fel arfer), mae’r cymhorthdal Budd-dal Tai y gellir ei hawlio wedi ei gyfyngu i lefel rhent a benderfynir gan y Swyddog Rhent sydd, bron yn ddi-eithriad, yn is na’r rhent llawn sy’n golygu bod raid i’r Cyngor dalu’r balans. Mewn adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o’r hawliadau cymhorthdal Budd-Dal Tai, nodwyd bod rhai landlordiaid wedi cael eu cofnodi fel RSL ar y system er nad oeddynt yn RSL mewn gwirionedd, sy’n golygu bod y Cyngor wedi gwneud hawliad anghywir am gymhorthdal Budd-dal Tai. Mae’r camgymeriad hwn wedi cael ei gywiro bellach ond mae wedi arwain at gost barhaus o £140k i’r Cyngor nad oes darpariaeth yn y gyllideb ar ei gyfer.

### 3.10. Arall

Mae nifer o gyllidebau eraill wedi cael eu haddasu i adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn sydd y tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth, mae'r rhain yn cynnwys cyllidebau incwm lle na fedr y Gwasanaeth bellach godi incwm. Mae gwerth net y newidiadau hyn yn £568k.

## 4. CRONFEYDD WRTH GEFN AR GYFER ARGYFYNGAU

**4.1** Fel rhan o'r broses gyllidebu, caiff nifer o gyllidebau wrth gefn eu hadeiladu i mewn i'r gyllideb i dalu costau tymor penodol, risgiau posibl y bydd, efallai, angen eu cyllido yn ystod y flwyddyn neu fel arian wrth gefn cyffredinol a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn wrth i bwysau ychwanegol gael eu rhoddi ar y gyllideb neu os bydd pethau annisgwyl yn digwydd. Dangosir y newidiadau a wnaed i'r cyllidebau wrth gefn yn  Nhabl 1 isod:-

**Tabl 1**

**Symudiadau yn y Cyllidebau Wrth Gefn ar gyfer Argyfyngau rhwng  2018/19 a 2019/20**

| | | **Dyddiad Gorffen** | **Cyllideb 2018/19 £'000** | **Cyllideb Arfaethedig 2019/20 £'000** | **Newid £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Haulfre | Wedi'i glustnodi | I'w gadarnhau | 95 | 95 | - |
| Stem | Wedi'i glustnodi | 2021/22 | 38 | 38 | - |
| Bid Twf Rhanbarthol | Wedi'i glustnodi | I'w gadarnhau | 50 | 50 | - |
| Tîm Trothwy Gofal | Wedi'i glustnodi | 2018/19 | 240 | 240 | - |
| Chwyddiant Cyflogau | Wedi'i glustnodi | 2018/19 | 150 | - | (150) |
| Tâl a Graddfeydd | Wedi'i glustnodi | Mynd rhagddo | 300 | 400 | 100 |
| Gostyngiad Dewisol yn y Trethi  Annomestig (NDR) | | Mynd rhagddo | 60 | 60 | 0 |
| Cronfa wrth Gefn Gyffredinol ar gyfer Argyfyngau | | Mynd rhagddo | 359 | 360 | 1 |
| **CYFANSWM** | | | **1,292** | **1,243** | **(49)** |

**4.2.** Cafodd y Tîm Trothwy Gofal ei gyllido yn y lle cyntaf am 2 flynedd a gyda'r cyllid yn dod i ben yn 2018/19. Oherwydd y pwysau parhaus ar y Gwasanaethau Plant a'r angen i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, nid ystyrir y byddai'n rhesymol tynnu cyllid yn ôl oddi ar y tîm hwn ar hyn o bryd. O'r herwydd, bydd y gyllideb yn parhau am ba bynnag gyfnod y bydd ei hangen.

## 5. COSTAU STAFFIO

**5.1** Bydd costau tâl yn newid yn flynyddol i adlewyrchu'r newidiadau o ran staff dros y flwyddyn (staff newydd yn cael eu penodi ar bwynt gwahanol ar y raddfa gyflog), staff yn derbyn hicyn (incrament) cyflog bob blwyddyn a'r dyfarniad cyflog. Caiff effaith pob un o'r rhain ar y gyllideb ei nodi isod:-

**5.2.** Mae hicynnau cyflog i staff a newidiadau mewn swyddi wedi golygu cynnydd o £707k mewn costau ac mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn yn ymwneud â'r hicynnau cyflog a dalwyd i staff dysgu, gyda hynny'n cyfri am £423k o'r cynnydd.

**5.3.** Mae'r dyfarniad cyflog i athrawon am y flwyddyn academaidd yn cychwyn ym Medi 2018 yn amrywio rhwng 1.5% a 3.5%. Mae effaith gyffredinol hyn ar ysgolion Ynys Môn yn dangos y bydd cynnydd o 2% mewn costau tâl. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud ar lefel y dyfarniad cyflog am y flwyddyn academaidd a fydd yn cychwyn ym Medi 2019, ac o'r herwydd, gwnaed tybiaeth bellach o 2%. Mae £301k ychwanegol wedi cael ei gynnwys yn y gyllideb ddisymud i gwrdd â'r gost ychwanegol hon.

**5.4.** Cytunwyd ar ddyfarniad cyflog o 2% ar gyfer staff nad ydynt yn dysgu am flwyddyn ariannol 2019/20 . Fodd bynnag, oherwydd yr angen i sicrhau bod y Cyngor yn talu i'w staff gyflog sy'n uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol, mae'r graddfeydd cyflog is wedi cael eu hailstrwythuro a bydd staff sydd ar y graddfeydd is hyn yn derbyn dyfarniadau cyflog hyd at 7.3%. Wedi modelu'r strwythur cyflog newydd, mae'n arwain at gynnydd o 3.1% yn y costau tâl ar gyfer 2019/20. Mae swm ychwanegol o £1,241k wedi cael ei gynnwys yn y gyllideb ddisymud i gwrdd â'r gost ychwanegol hon.

## 6. CHWYDDIANT NAD YW'N GYSYLLTIEDIG Â THÂL

**6.1** Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canol yn caniatáu ar gyfer lefel chwyddiant cyffredinol o 2.1% ar brisiau. Mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), a gydnabyddir yn eang yn awr fel y mesur gorau o chwyddiant, yn 2.7% (yn Awst 2018) ond disgwylir iddo ostwng yn raddol dros y misoedd nesaf. Fodd bynnag, ni wyddys beth fydd effaith Brexit a gall arwain at gynnydd mewn chwyddiant petai'r DU yn gadael yr UE heb daro bargen. O'r herwydd, ystyrir bod cyfradd chwyddiant o 2.1% yn rhesymol ac mae'r gyfradd hon wedi cael ei defnyddio mewn perthynas â'r holl gyllidebau cyffredinol ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau. Lle mae gan gontractau penodol ddulliau penodol o benderfynu ar y cyfraddau chwyddiant perthnasol, bydd y cyfraddau penodol hynny wedi cael eu priodoli i'r gyllideb briodol.

**6.2.** Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mabwysiadwyd polisi o gynyddu cyllidebau incwm anstatudol gan 5% ar gyfartaledd ym mhob gwasanaeth. Mater i'r gwasanaethau unigol oedd pennu'r ffioedd a'r taliadau unigol ar gyfer eu gwasanaethau. Yn 2017/18 a 2018/19, fe newidiodd y polisi a mynnwyd ar gynnydd o 3% oherwydd y pryder fod y ffioedd a godwyd am rai gwasanaethau yn ymylu ar, neu'n uwch na'r ffioedd yr oedd darparwyr sector preifat yn eu codi. Mae'r un dybiaeth wedi cael ei defnyddio ar gyfer 2019/20, oherwydd mae'r gwahaniaeth rhwng y codi 3% a chwyddiant bellach yn fychan iawn.

**6.3.** Cynnydd net yr addasiadau ar gyfer chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â thâl ac incwm anstatudol yw £1,649k.

## 7. PWYSAU AR Y GYLLIDEB A GWASANAETHAU A ARWEINIR GAN Y GALW AMDANYNT

**7.1** Y gyllideb ddisymud yw'r gyllideb sydd ei hangen i ddarparu'r un lefel o wasanaeth ag a gafwyd yn 2018/19, ar ôl gwneud addasiadau ar gyfer unrhyw newidiadau y gwyddys amdanynt (fel a nodir ym mharagraffau 3 a 4 uchod) ac ar ôl addasu ar gyfer newidiadau staffio a chwyddiant tâl a phrisiau (fel y nodir ym mharagraffau 5 a 6). Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn darparu lefel realistig o gyllid, mae angen gwneud newidiadau ychwanegol er mwyn adlewyrchu'r galw cyfredol ac unrhyw bwysau ar y gyllideb y gwyddys amdanynt. Nodir y newidiadau arfaethedig yn y paragraffau isod.

### 7.2. Gwasanaethau Plant

Bydd Aelodau'n ymwybodol o'r cynnydd yn nifer y plant sydd mewn gofal ar hyn o bryd, p'un a yw'r gofal ar ffurf cymorth i rieni a theuluoedd fel y gall plant aros yn eu cartrefi, plant wedi eu lleoli â gofalwyr maeth neu blant sydd wedi eu lleoli mewn lleoliadau preswyl arbenigol. Mae'n deg dweud nad yw'r gyllideb a ddyrannwyd i'r Gwasanaethau Plant wedi adlewyrchu'n llawn y cynnydd yn y galw am y gwasanaeth. O ganlyniad, cafwyd gorwariant oddeutu £1.7m yn y Gwasanaethau Plant yn 2017/18 a rhagwelir y bydd yn gorwario swm tebyg yn 2018/19. Caiff y gorwariant hwn ei gyllido o falansau cyffredinol y Cyngor sydd wedi arwain at y balans rhagamcanedig yn syrthio islaw'r lefel isaf a argymhellir. O'r herwydd, rhaid rhoi sylw i'r diffyg cyllidebol hwn yn 2019/20.

Mae'r Gwasanaeth wrthi'n gweithio ar gynigion ar hyn o bryd i leihau costau cyfartaleddog lleoliadau drwy ychwanegu at nifer y gofalwyr maeth sydd ar gael gan yr awdurdod lleol a drwy ychwanegu at nifer y lleoliadau sydd ar gael ar yr Ynys. Fodd bynnag, ni fydd yr arbedion y byddai hyn yn eu creu yn pontio'r bwlch rhwng y costau cyfredol a'r gyllideb gyfredol. Er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn adlewyrchu'r galw cyfredol, amcangyfrifir y bydd angen £1.39m ychwanegol.

### 7.3. Ffioedd Addysg All-sirol

Wrth i nifer y plant sydd wedi eu lleoli mewn gofal preswyl arbenigol neu gyda rhieni maeth nad ydynt yn byw ar Ynys Môn gynyddu, mae'n cael sgil-effaith ar y gyllideb Ffioedd Addysg All-sirol. Yn ystod 2018/19, mae'r pwysau ar y gyllideb hon wedi lleihau ond rhagwelir y bydd y costau'n parhau i fod yn uwch na'r gyllideb. Mae £202k ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i fynd i'r afael â'r pwysau ychwanegol hyn.

### 7.4. Digartrefedd

Mae cyfrifoldebau ychwanegol yn codi o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wedi arwain at gynnydd yn y galw am lety gwely a brecwast ac, o'r herwydd, mae cynnydd cyffredinol yn y prisiau ar gyfer Gwely a Brecwast wedi cael effaith ar bob Awdurdod yng Nghymru. Mae'r swm y ceir grant budd-dal ar ei gyfer wedi'i gyfyngu i gyfradd y Lwfans Tai Lleol, a bennwyd ddiwethaf ar £70 yr wythnos yn 2011. Ar hyn o bryd, codir oddeutu £50 y noson ar y Cyngor. Amcangyfrifir bod y gost ychwanegol yn £90k.

### 7.5. Grantiau a Drosglwyddwyd i'r Setliad

Mae Llywodraeth Cymru wedi trosglwyddo dau grant yr oeddynt yn bwriadu eu dyfarnu i Gynghorau yn 2018/19 i'r setliad yn 2019/20, fel a ddangosir yn Nhabl 2 isod. Wrth benderfynu ar y gyllideb ddisymud, rydym wedi caniatáu ar gyfer y cynnydd yng nghyflogau'r athrawon. O ran cinio ysgol am ddim, ac yn sgil y ffaith na fydd Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno i Ynys Môn tan Rhagfyr 2018, nid ydym yn rhagweld y bydd nifer sylweddol o deuluoedd yn elwa o'r cynllun gwarchod a fydd yn cael ei weithredu o Ionawr 2019 ac, o ganlyniad, ni fydd cost cinio ysgol am ddim yn cynyddu. O ganlyniad, gofynnir i Aelodau gadarnhau na fydd y ddau grant yma'n cael eu trosglwyddo i gyllidebau'r gwasanaethau ond yn cael eu trin yn hytrach fel arian cyffredinol ychwanegol.

**Tabl 2**

**Cymhariaeth o'r Grantiau a drosglwyddwyd i'r Setliad â'r Grantiau Cyfatebol a dderbyniwyd yn 2019/20**

| Grant | 2019/20 Dyraniad yn y Setliad £ | 2018/19 Dyraniad Grant Cyfatebol £ |
|---|---|---|
| Grant Tâl Athrawon | 183,712 | Heb dderbyn ffigyrau |
| Grant Cinio Ysgol am Ddim | 124,502 | Heb dderbyn ffigyrau |
| **CYFANSWM Y GRANTIAU A DROSGLWYDDWYD I MEWN** | **308,214** | |

### 7.6. Grantiau Refeniw Penodol

Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau refeniw penodol yn aros ar lefel 2018/19, er bod dau grant nodedig o hyd (rheoli gwastraff ac addysg ôl 16) lle nad yw'r cyllid grant ar gyfer 2019/20 wedi'i gyhoeddi eto a lle mae'r dyraniad unigol i bob awdurdod heb ei ddarparu. Bydd y ffaith bod y grantiau'n aros ar lefel 2018/19 yn gofyn am rywfaint o ostyngiad mewn allbwn er mwyn cyllido'r pwysau chwyddiant ond ni fydd angen cyllid refeniw craidd ychwanegol i wneud iawn am unrhyw ddiffyg.

## 8. CYLLIDEB DDISYMUD 2019/20

**8.1** Yn seiliedig ar yr holl addasiadau a thybiaethau y manylir arnynt uchod, mae cyfanswm y gyllideb ddisymud ar gyfer 2019/20 yn £137.402m, cynnydd o £6.457m ar gyllideb derfynol 2018/19. Mae crynodeb o'r newidiadau a wnaed ynghlwm fel Atodiad 2. Mae manylion y gyllideb ddisymud fesul Gwasanaeth ynghlwm fel Atodiad 3.

## 9. SETLIAD DROS DRO

**9.1** Mae'r setliad dros dro ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 9 Hydref 2018, yn dangos gostyngiad o £0.227m yn y cyllid cyffredinol ar gyfer Cymru, sy'n cyfateb i ostyngiad o 0.01%. Fodd bynnag, mae £12.07m yn ymwneud â grantiau a drosglwyddwyd i mewn ac, ar ôl gwneud addasiadau ar gyfer y rhain, mae'r ffigwr gwirioneddol yn dangos gostyngiad o £12.296m neu 0.3% mewn cyllid. Dangosir y manylion yn Nhabl 3 isod:-

| **Tabl 3<br>Setliad Dros Dro 2019/20** | | |
|---|---|---|
| | **Ynys Môn** | **Cymru** |
| | **£'m** | **£'m** |
| AEF 2018/19 | 95.812 | 4,214.067 |
| Grantiau Blynyddoedd Blaenorol a Drosglwyddwyd i Mewn / (Allan) | | |
| Grant Tâl Athrawon | 0.184 | 8.069 |
| Grant Cinio Ysgol am Ddim | 0.124 | 4.000 |
| | | |
| **AEF 2018/19 wedi'i addasu** | **96.120** | **4,226.136** |
| **AEF Dros Dro 2019/20** | **95.159** | **4,213.840** |

**9.2.** Mae'r setliad terfynol yn cynnwys cyllid ychwanegol sy'n sicrhau nad yw unrhyw awdurdod yn derbyn gostyngiad o fwy na 1% yn yr AEF. O ganlyniad, mae Ynys Môn yn derbyn £83k ychwanegol na fyddai wedi ei dderbyn oni bai fod y llawr cyllido yn ei le.

**9.3.** Er bod lefel y cyllid yn gyffredinol wedi gostwng 0.3%, mae Ynys Môn wedi derbyn gostyngiad dros dro o 1%. Ymddengys bod y fformiwla cyllido wedi ffafrio ardaloedd trefol yn Ne Cymru sydd wedi derbyn llai o ostyngiad neu gynnydd yn eu AEF. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r cynnydd yn y boblogaeth yn yr ardaloedd trefol hynny sy'n golygu bod y fformiwla yn dyrannu mwy o gyllid i'r ardaloedd hynny. Nid yw dadansoddiad o'r Asesiad Gwariant Safonol (AGS) yn nodi un rheswm clir pam fod Ynys Môn wedi gwneud mor wael yn setliad eleni o gymharu â blynyddoedd blaenorol, ond fe wnaeth ddangos bod Ynys Môn wedi derbyn cynnydd canrannol llai na'r cyfartaledd Cymreig yn yr elfennau o'r AGS lle roedd y dyraniad wedi codi a gostyngiad canrannol uwch na'r cyfartaledd Cymreig yn achos yr elfennau hynny ble roedd y dyraniad wedi gostwng.

**9.4.** Mae cyllideb amlinellol Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at 2 grant penodol, £30m ar gyfer Gofal Cymdeithasol a £15m ar gyfer safonau ysgol. Mae'n aneglur ar hyn o bryd a oes unrhyw ddisgwyliad ar ran Llywodraeth Cymru i'r grantiau hynny gyllido gwariant penodol neu ddarparu unrhyw ychwanegedd. Os nad oes, gall fod yn bosib defnyddio'r arian ychwanegol hwn i gyllido pwysau cyllidebol yn y maes Gofal Cymdeithasol ac ysgolion y gwnaed darpariaeth ar eu cyfer yn y gyllideb ddisymud gan ostwng y bwlch cyllidebol.

**9.5** Mae ansicrwydd hefyd ynghlwm wrth gyllido'r cynnydd yng nghyfraniad y cyflogwyr tuag at bensiynau athrawon. Os yw llywodraeth y DU yn cyllido'r gost hon yn Lloegr a bod cyllid ychwanegol yn cael ei drosglwyddo i Gymru o ganlyniad a bod Llywodraeth Cymru yn penderfynu pasio hwnnw ymlaen i lywodraeth leol, byddai'r cyllid ychwanegol hwnnw hefyd yn lleihau'r bwlch cyllido oherwydd cyfrifir am y gost ychwanegol yn y gyllideb ddisymud.

## 10. Y BWLCH CYLLIDO

**10.1** Yn seiliedig ar gyllideb ddisymud o £137.162m a lefel AEF o £95.159m, caiff y gwariant net sydd i'w gyllido o'r Dreth Gyngor ei ddangos yn Nhabl 4 isod:-

| **Tabl 4**<br><br>**Y Bwlch Cyllidebol 2019/20** | | |
|---|---|---|
| | £'m | £'m |
| **Y Gyllideb Ddisymud** | | **137.402** |
| Cyllidwyd gan : | | |
| Grant Cymorth Refeniw (RSG) | 72.322 | |
| Cyfran o'r Gronfa Trethi Annomestig | 22.754 | |
| Cyllid Arall Ychwanegol | 0.083 | |
| **Cyfanswm y Cyllid Allanol Cyfun** | | **95.159** |
| Cyfanswm y Gwariant Net sydd i'w gyllido o'r Dreth Gyngor | | **42.243** |
| Cyllideb Dreth Gyngor 2018/19 | | (35.087) |
| **Diffyg Cyllidebol (cyn cynyddu'r Dreth Gyngor)** | | **7.156** |

**10.2** Caiff effaith y gwahanol lefelau o gynnydd yn y Dreth Gyngor ac ar y tâl gyfatebol ar gyfer eiddo Band D (£1,140.21 yn 2018/19) ei ddangos yn Nhabl 5 isod:-

**Tabl 5**

**Effaith y gwahanol lefelau o gynnydd yn y Dreth Gyngor ar y Diffyg Cyllidebol**

| **% Cynnydd** | **Y Dreth Gyngor £'m** | **Diffyg Cyllidebol £'m** | **Effaith wythnosol ar Fand D £** | **Cyfanswm y Cynnydd ym Mand D £** |
|---|---|---|---|---|
| 3.0 | 36.140 | 6.102 | 0.66 | 34.19 |
| 3.5 | 36.315 | 5.927 | 0.77 | 39.89 |
| 4.0 | 36.491 | 5.752 | 0.88 | 45.59 |
| 4.5 | 36.666 | 5.577 | 0.99 | 51.29 |
| 5.0 | 36.841 | 5.401 | 1.10 | 56.99 |
| 5.5 | 37.017 | 5.226 | 1.21 | 62.69 |
| 6.0 | 37.192 | 5.050 | 1.32 | 68.39 |
| 6.5 | 37.368 | 4.875 | 1.42 | 74.09 |
| 7.0 | 37.544 | 4.699 | 1.53 | 79.79 |
| 7.5 | 37.719 | 4.523 | 1.64 | 85.50 |
| 8.0 | 37.894 | 4.349 | 1.75 | 91.20 |
| 8.5 | 38.070 | 4.173 | 1.86 | 96.90 |
| 9.0 | 38.245 | 3.998 | 1.97 | 102.60 |
| 9.5 | 38.421 | 3.822 | 2.08 | 108.30 |
| 10.0 | 38.596 | 3.647 | 2.19 | 114.00 |

**10.3** Roedd y gwaith cychwynnol ar y gyllideb yn amcan y byddai'r bwlch cyllido (ar ôl caniatáu ar gyfer cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor) yn £5m yn 2019/20 ac, o'r herwydd, gofynnwyd i wasanaethau nodi arbedion yn eu cyllidebau a fyddai'n creu'r arbedion angenrheidiol o £5m. Cynhaliwyd nifer o weithdai cyllideb yn ystod yr haf a nododd Penaethiaid Gwasanaeth arbedion posibl o £3.747m ac mae'r manylion ynghlwm fel Atodiad 4. Gellir gweithredu nifer o'r arbedion heb i hynny gael effaith ar y gwasanaethau y mae'r cyhoedd yn eu derbyn. Bydd proses ymgynghori gyhoeddus ar y cynigion cyllidebol a fydd yn effeithio'r cyhoedd yn cael ei chynnal rhwng 13 Tachwedd 2018 a 29 Rhagfyr 2018.

**10.4** Roedd balans cronfa gyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2018 yn £6.9m, sydd ychydig uwchlaw'r balans a aseswyd gan y Swyddog Adran 151 fel y lleiafswm angenrheidiol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa o ran y gyllideb gyffredinol am 2018/19 yn rhagdybio gorwariant dros £2m a bydd angen i hyn gael ei gyllido o'r gronfa wrth gefn gyffredinol ac, o ganlyniad, bydd y balansau cyffredinol yn is na'r balans isaf a argymhellwyd. O ganlyniad, nid oes unrhyw sgôp i ddefnyddio balansau cyffredinol yn 2019/20 fel cyfraniad tuag at y cyllid a fyddai'n fodd i'r Cyngor ohirio rhai o'r arbedion refeniw tan 2020/21.

**10.5** Byddai cyfanswm yr arbedion a nodwyd hyd yma, sef £3.747m, a'r Dreth Gyngor ychwanegol byddai cynnydd 5% yn cynhyrchu, £1.755m, yn lleihau'r bwlch cyllido gan £5.502m, gan adael diffyg cyllidebol o £1.654m. Er mwyn cau'r bwlch hwn, mae'r opsiynau isod ar gael, naill ai fel un opsiwn neu gyfuniad o opsiynau:-

**(i)** Cynnydd o fwy na 5% yn y Dreth Gyngor. I gau'r bwlch cyllido yn llwyr a heb weithredu ar unrhyw opsiynau eraill, byddai'n rhaid cael cynnydd o 9.72% yn y Dreth Gyngor;

**(ii)** Cynyddu premiwm y Dreth Gyngor – mae'r manylion ynghlwm fel eitem ar wahân ar raglen y Pwyllgor hwn;

**(iii)** Lleihau'r gyllideb ddisymud – er y gall hyn arwain at broblemau cyllidebol yn 2019/20 oherwydd mae'n bosibl na fydd y gyllideb y cytunwyd arni'n ddigonol i gwrdd â'r gostau parhaus;

**(iv)** Gofyn i'r Gwasanaethau nodi mwy o arbedion, e.e. drwy ddwyn ymlaen yr arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2020/21 neu drwy roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau an-statudol a fydd efallai'n arwain at ddiswyddiadau gorfodol.

**(v)** Defnyddio arian wrth gefn i gyllido'r bwlch cyllidol ond, oherwydd bod lefel yr arian wrth gefn yn gostwng, byddai hyn yn cynyddu'r risg gyllidol y mae'r Cyngor yn ei hwynebu a byddai angen toriadau pellach yn 2020/21.

## 11. PREMIWM Y DRETH GYNGOR

**11.1** Bydd unrhyw newid i bremiwm y Dreth Gyngor yn effeithio ar gyllid y Cyngor ac yn newid y bwlch cyllido. Mae adroddiad llawn ar bremiwm y Dreth Gyngor yn eitem ar wahân ar agenda'r Pwyllgor hwn, ond mae goblygiadau ariannol y newidiadau i'w gweld isod.

**11.2** Pennwyd cyllideb 2018/19 ar gyfer premiwm y Dreth Gyngor gan ddefnyddio sylfaen y dreth a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2017. Ers y dyddiad hwnnw, mae nifer yr eiddo wedi newid ac mae hyn wedi arwain at gynnydd yn sylfaen y dreth. Gan nad oes unrhyw newidiadau eraill yn lefel y premiwm, bydd y cynnydd yn sylfaen y dreth yn cynyddu'r incwm a gynhyrchir gan £129k, gan fynd â'r gyllideb i £777k.

**11.3** Caniateir i'r Cyngor osod dwy lefel wahanol o bremiwm ar gyfer y tai gwag a'r ail gartrefi. Dangosir effaith newid un neu ddwy o'r lefelau premiwm yn Nhabl 6 isod. Mae'r ffigurau'n seiliedig ar y dybiaeth flaenorol y defnyddir 80% o'r sail dreth bresennol fel sail dreth y gyllideb. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer unrhyw leihad yn sylfaen y dreth wrth i drethdalwyr gymryd camau mewn perthynas â'u heiddo er mwyn peidio â chodi'r premiwm arnynt e.e. mynd ati i farchnata'n weithredol neu osod eu heiddo neu werthu neu osod yr eiddo.

| Tabl 6<br><br>Lefel ddiwygiedig o Bremiwm Tai Gwag | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **25%** | **30%** | **35%** | **40%** | **50%** | **75%** | **100%** |
| **Lefel ddiwygiedig y premiwm ail gartrefi** | **25%** | +£0 | +£29k | +£59k | +£88k | +£147k | +£294k | +£441k |
| | **30%** | +£124k | +£154k | +£183k | +£213k | +£271k | +£418k | +£565k |
| | **35%** | +£249k | +£278k | +£307k | +£337k | +£395k | +£543k | +£690k |
| | **40%** | +£373k | +£402k | +£432k | +£461k | +£520k | +£667k | +£814k |
| | **50%** | +£621k | +£651k | +£680k | +£710k | +£768k | +£916k | +£1,063k |
| | **75%** | +£1,243k | +£1,272k | +£1,301k | +£1,331k | +£1,390k | +£1,537k | +£1,684k |
| | **100%** | +£1,864k | +£1,893k | +£1,923k | +£1,952k | +£2,011k | +£2,158k | +£2,305k |

**11.4** Bydd unrhyw gynnydd yn lefel y Dreth Gyngor hefyd yn arwain at fwy o incwm drwy'r premiwm. Yn seiliedig ar sylfaen y dreth bresennol ac os cynhelir y premiwm ar ei lefel bresennol o 25%, mae pob cynnydd o 1% yn y Dreth Gyngor yn cynhyrchu £7,700 ychwanegol mewn premiwm.

## 12. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG DIWYGIEDIG

**12.1** Nid oedd y setliad dros dro yn rhoi unrhyw syniad beth fyddai lefel yr ariannu drwy'r AEF yn 2020/21 a 2021/22 a bydd llawer yn dibynnu ar adolygiad cynhwysfawr o wariant Llywodraeth y DU a gynllunnir ar gyfer yr haf o 2019.

**12.2** Ar hyn o bryd, mae'n rhesymol tybio na fydd unrhyw gynnydd sylweddol yn y AEF yn 2020/21 na 2021/22. O ganlyniad, bydd yn rhaid i'r Cyngor barhau i ddod o hyd i £4.3m o arbedion pellach dros y ddwy flynedd hynny tra'n parhau i orfod cynyddu lefelau'r Dreth Gyngor 5% arall ym mhob un o'r ddwy flynedd.

## 13. MATERION I'W PENDERFYNU

**13.1** Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn tan 27 Chwefror 2018. Fodd bynnag, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell y canlynol ar hyn o bryd:-

- **(i)** Peidio â dyrannu'r ddau grant sydd wedi cael eu hymgorffori yn yr AEF i gyllidebau'r gwahanol wasanaethau oherwydd caniatawyd ar gyfer y costau ychwanegol yn y gyllideb ddisymud (para 7.5);
- **(ii)** Cymeradwyo cyllideb gyfalaf o f £137.402m ar gyfer 2019/20 ac y dylai hon fod yn sylfaen i gyllideb refeniw 2019/20 (para 8.1);
- **(iii)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniad ar y cynnydd arfaethedig yn Y Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus (para 10.2 & 10.5);
- **(iv)** Wedi caniatáu ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor, dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio wneud digon o arbedion yn 2019/20 i falansio'r gyllideb refeniw heb orfod defnyddio arian wrth gefn cyffredinol a bod modd gwneud yr arbedion angenrheidiol yn 2019/20 (para 10.3 & 10.5);
- **(v)** Y dylai'r Pwyllgor Gwaith ofyn barn y cyhoedd ar yr arbedion arfaethedig (Atodiad 4).

**ATODIAD 2**

## DADANSODDIAD O'R SYMUDIAD O GYLLIDEB DERFYNOL 2018/19 I GYLLIDEB DDISYMUD 2019/20

| | Cyllideb Ddisymud | | Cyf. Adroddiad |
|---|---|---|---|
| | £'m | £'m | |
| **Cyllideb 2018/19** | | **130.945** | |
| | | | |
| **Newidiadau ymrwymedig** | | | |
| Cyllido Cyfalaf | (0.521) | | Para 3.2 |
| Nifer Disgyblion | 0.118 | | Para 3.3 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | (0.360) | | Para 3.4 |
| Ardoll y Gwasanaeth Tân | 0.190 | | Para 3.5 |
| Ysgol Santes Dwynwen | (0.125) | | Para 3.6 |
| Cyfraniadau'r Cyflogwr i Bensiynau Athrawon | 0.802 | | Para 3.7 |
| Gwasanaethau Oedolion | 0.114 | | Para 3.8 |
| Llety â Chymorth | 0.140 | | Para 3.9 |
| Newidiadau Ymrwymedig Eraill | 0.568 | | Para 3.10 |
| | | **0.926** | |
| | | | |
| Argyfyngau | | **(0.049)** | Para 4 |
| | | | |
| **Costau Staffio** | | | |
| Hicynnau cyflog | 0.707 | | Para 5.2 |
| Dyfarniad cyflog athrawon | 0.301 | | Para 5.3 |
| Dyfarniad cyflog staff nad ydynt yn athrawon | 1.241 | | Para 5.4 |
| | | **2.249** | |
| | | | |
| Chwyddiant nad yw'n gyflogau | | **1.649** | Para 6.3 |
| | | | |
| **Pwysau ar y gyllideb a arweinir gan y galw** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 1.390 | | Para 7.2 |
| Ffioedd All-sirol | 0.202 | | Para 7.3 |
| Digartrefedd | 0.090 | | Para 7.4 |
| | | **1.682** | |
| | | | |
| **CYLLIDEB DDISYMUD 2019/20** | | **137.402** | |

**ATODIAD 3**

| CYLLIDEB DDISYMUD 2019/20 YN ÔL GWASANAETH | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | **Cyllideb 2018/19** | **Cyllideb Ddisymud 2019/20** | **Symud** | **% Newid** |
| | **£'m** | **£'m** | **£'m** | **%** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | |
| Ysgolion | 37.334 | 39.583 | + 2.249 | + 6.02 |
| Addysg Canolog | 9.877 | 10.502 | + 0.625 | + 6.33 |
| Diwylliant | 1.303 | 1.353 | + 0.050 | + 3.84 |
| **Cyfanswm Dysgu Gydol Oes** | **48.514** | **51.438** | **+ 2.924** | **+ 6.03** |
| | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | |
| Priffyrdd | 6.295 | 6.459 | + 0.164 | + 2.61 |
| Gwastraff [1] | 7.491 | 7.729 | + 0.238 | + 3.18 |
| Eiddo | 0.878 | 1.004 | + 0.126 | + 14.35 |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | **14.664** | **15.192** | **+ 0.528** | **+ 3.60** |
| | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | |
| Datblygu Economaidd a Morwrol | 1.015 | 1.164 | + 0.149 | + 14.68 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 1.966 | 2.053 | + 0.087 | + 4.43 |
| Hamdden | 0.713 | 0.755 | + 0.042 | + 5.75 |
| **Cyfanswm Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | **3.694** | **3.972** | **+ 0.278** | **+ 7.53** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | **24.568** | **25.450** | **+ 0.882** | **+ 3.60** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | **8.160** | **9.758** | **+ 1.598** | **+ 19.58** |
| | | | | |
| **Trawsnewid Corfforaethol** | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1.232 | 1.274 | + 0.042 | + 3.41 |
| TGCh | 2.407 | 2.409 | + 0.002 | + 0.08 |
| Trawsnewid | 0.823 | 0.828 | + 0.005 | + 0.61 |
| **Cyfanswm Trawsnewid Corfforaethol** | **4.462** | **4.511** | **+ 0.049** | + 1.10 |
| | | | | |
| **Tai** | **0.912** | **1.096** | **+ 0.184** | **+ 20.18** |
| | | | | |
| **Adnoddau (yn cynnwys Budd-daliadau a roddwyd)** | **2.785** | **3.312** | **+ 0.527** | **+ 18.92** |
| | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | **1.485** | **1.571** | **+ 0.086** | **+ 5.79** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **109.244** | **116.300** | **+ 7.056** | **+ 6.46** |
| | | | | |
| **Cyllidebau Corfforaethol** | | | | |
| Rheolaeth Corfforaethol | 0.657 | 0.685 | + 0.028 | + 4.26 |
| Ardollau | 3.360 | 3.552 | + 0.192 | + 5.71 |
| Corfforaethol a Democrataidd | 3.145 | 3.480 | + 0.335 | + 10.65 |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 7.511 | 6.990 | - 0.521 | - 6.94 |
| CRT – ad-daliadau | (0.678) | (0.678) | 0.000 | 0.00 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 5.524 | 5.164 | - 0.359 | - 6.50 |
| Argyfyngau | 2.122 | 1.849 | - 0.273 | - 12.86 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 0.060 | 0.060 | 0.000 | 0.00 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Corfforaethol** | **21.701** | **20.862** | **- 0.839** | **- 3.87** |
| | | | | |
| **CYFANSWM CYLLIDEB** | **130.945** | **137.402** | **+ 6.457** | **+ 4.93** |

## ARBEDION CYLLIDEB ARFAETHEDIG 2019/20

| Arbediad arfaethedig | Gwasanaeth | Arbedion Tebygol £'000 |
|---|---|---|
| Lleihau'r gronfa prynu llyfrau | Llyfrgelloedd | 20 |
| Dileu cyllideb nas defnyddiwyd -TalNet | Llyfrgelloedd | 20 |
| Darparu setliad ariannol i ysgolion sy'n is na chost lawn yr holl bwysau sy ar y gyllideb a wynebir gan ysgolion yn 2019/20 | Ysgolion | 1,739 |
| Cynyddu cost cinio ysgol o 20c | Addysg | 43 |
| Dim ond prynu'r isafswm statudol o ddarpariaeth feithrin o sefydliadau meithrin | Addysg | 89 |
| Symud i ddalgylch model ardal uwchradd ar gyfer cynorthwywyr ysgol er mwyn gwneud defnydd mwy effeithlon o staff | Addysg | 106 |
| Dileu cyllidebau marchnata ar gyfer Melin Llynnon, Carchar Biwmares ac Ynys Lawd – dim eu hangen mwyach | Diwylliant | 15 |
| Lleihau'r galw am leoliadau preswyl a nyrsio gan 2.5% y flwyddyn | Gwasanaethau Oedolion | 111 |
| Lleihau'r galw am wasanaethau gofal cartref o 53 awr yr wythnos | Gwasanaethau Oedolion | 46 |
| Lleihau'r galw am gefnogaeth cymorth byw gan 50 awr yr wythnos | Gwasanaethau Oedolion | 38 |
| Cynyddu nifer y cleientiaid sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol gan 10 cleient y flwyddyn | Gwasanaethau Oedolion | 30 |
| Cynyddu'r tâl safonol a godir am ofal mewn cartrefi a reolir gan y Cyngor i adlewyrchu'n agosach y gost o ddarparu'r gwasanaeth | Gwasanaethau Oedolion | 30 |
| Sicrhau arbedion o fewn y gwasanaeth bws drwy atal y teithiau canlynol sy'n isel eu defnydd –<br>50b - 07.13 o Amlwch i Langefni (gwasanaeth 32) ar foreau Sadwrn<br>63a – Gwasanaeth 63 sy'n teithio o Amlwch i Lanerchymedd i Fangor (trwy Brynteg) ar brynhawniau Sadwrn<br>43a - Gwasanaeth dyddiol (43a) sy'n gwasanaethu stadau ac ardaloedd preswyl ym Mhorthaethwy a Llanfairpwll ynghyd â darparu gwasanaeth rhwng Caernarfon a Llangefni | Priffyrdd | 133 |
| Cynyddu'r ffi taleb parcio blynyddol gan £20 i wireddu mwy o incwm | Priffyrdd | 8 |
| Adolygu dyfodol yr holl groeswyr plant ysgol | Priffyrdd | 58 |
| Lleihau'r cyllidebau ar gyfer cynnal a chadw llwybr yr arfordir, adeileddu a thraffig | Priffyrdd | 15 |

| **Arbediad arfaethedig** | **Gwasanaeth** | **Arbedion Tebygol £'000** |
|---|---|---|
| Atal y gwasanaeth casglu cewynnau ychwanegol | Gwastraff | 30 |
| Lleihau’r cyllidebau morwrol | Morwrol | 16 |
| Lleihau capasiti o fewn y Swyddogaeth Adfywio | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 66 |
| Lleihau cyllidebau Twristiaeth a Chefn Gwlad | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 5 |
| Lleihau'r gyllideb cyfleusterau awyr agored yn dilyn trosglwyddo asedau o’r Swyddogaeth Hamdden | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 42 |
| Lleihau cyllidebau canolig caffael | Adnoddau | 5 |
| Lleihau cyllideb hyfforddiant i leoliadau’r haf | Trawsnewid | 20 |
| | | |
| **CYFANSWM YR ARBEDION ARFAETHEDIG I’W CYNNWYS YN YR YMGYNGHORIAD AR Y GYLLIDEB** | | **2,685** |
| **Cynigion arbedion i'w gweithredu heb ymgynghori** | | |
| Cau 1 clwb a lleihau nifer yr wythnosau mae clybiau eraill yn agored ynghyd â pheidio a thalu i blant weithio yn y bar coffi yng Nghlwb Jesse Hughes | Addysg | 10 |
| Ail-strwythuro Staff | Diwylliant | 36 |
| Lleihau cyllideb grantiau celfyddydau i adlewyrchu'r swm gwirioneddol sydd ei angen | Diwylliant | 15 |
| Cynyddu’r gyllideb incwm i Oriel Ynys Môn i adlewyrchu’r perfformiad cyfredol | Diwylliant | 30 |
| Dechrau codi'r tâl statudol a ganiateir i bob cleient sy'n oedolyn yn gyson ar draws pob oedran ac anabledd | Gwasanaethau Oedolion | 250 |
| Blwyddyn lawn o arbedion yn dilyn cau Plas Penlan | Gwasanaethau Oedolion | 70 |
| Allanoli mwy o becynnau gofal cartref i'r darparwyr preifat | Gwasanaethau Oedolion | 11 |
| Lleihau'r cyllidebau atgyweirio a cynnal a chadw goleuadau stryd o ganlyniad i osod mwy o oleuadau stryd LED | Priffyrdd | 42 |
| Rhoi'r gorau i ddefnyddio ychwanegyn safecote ar gyfer graeanu | Priffyrdd | 25 |
| Cynyddu'r gyllideb incwm gwaith stryd preifat i adlewyrchu'r lefel bresennol o incwm a dderbynnir | Priffyrdd | 100 |
| Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am rai doiledau cyhoeddus i gymunedau | Gwastraff | 10 |
| Mwy o ddefnydd o gerbydau LPG a thrydan | Priffyrdd | 40 |
| Incwm ychwanegol o’r unedau diwydiannol newydd | Eiddo | 14 |
| Ail-strwythuro Tîm Rheoli Eiddo | Eiddo | 85 |
| Arbedion ar gyllidebau ynni yn dilyn buddsoddiad cyfalaf | Eiddo | 30 |

| Arbediad arfaethedig | Gwasanaeth | Arbedion Tebygol<br>£'000 |
|---|---|---|
| Rhesymoli'r rheolaeth o staff glanhau | Eiddo | 20 |
| Lleihau'r gyllideb costau adeiladu / rhedeg yn dilyn cael gwared o Neuadd y Sir Llangefni | Eiddo | 20 |
| Lleihau'r capasiti o fewn Swyddogaeth Gwarchod y Cyhoedd | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 42 |
| Ailstrwythuro staff | Tai | 54 |
| Ailstrwythuro Staff | Adnoddau | 25 |
| Lleihau cyllidebau ffôn ar ôl terfynu llinellau ffôn nas defnyddir neu a ddefnyddir ychydig | Trawsnewid | 20 |
| Dileu'r gyllideb fidio gynhadledd – dim yn defnyddio'r system mwyach | Trawsnewid | 3 |
| Lleihau'r cyllidebau pensiwn hanesyddol i adlewyrchu costau îs | Corfforaethol | 100 |
| Lleihau ffioedd archwilio allanol i adlewyrchu'r gwasanaeth a'r gost diwygiedig | Corfforaethol | 10 |
| | | |
| **CYFANSWM YR ARBEDION ARFAETHEDIG I'W GWEITHREDU HEB YMGYNGHORI** | | **1,062** |
| | | |
| **CYFANSWM YR ARBEDION ARFAETHEDIG 2019/20** | | **3,747** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **12 TACHWEDD 2018** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB CYFALAF 2019/20** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>**EST. 2601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb gyfalaf ar gyfer 2019/20, a gyflwynir i'r Cyngor llawn ei chymeradwyo yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019.

## 2. ARGYMHELLION

- Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2019/20 i'r Cyngor llawn:-

| | **£'m** |
|---|---|
| Cynlluniau Ymrwymedig a Ddygwyd Ymlaen o 2018/19 | 13.429 |
| Buddsoddi mewn Asedau presennol | 2.539 |
| Ail-wynebu Priffyrdd | 1.359 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | 7.563 |
| Cyfanswm Cynlluniau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol | 24.890 |
| Cynlluniau Cyfalaf CRT | 13.110 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2019/20** | **38.000** |
| Cyllidir drwy:- | |
| Gyllid a ddygwyd ymlaen o 2018/19 | 1.099 |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1.327 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2.026 |
| Benthyca Di-gefnogaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif | 1.847 |
| Benthyca â Chefnogaeth– Ysgolion yr 21ain Ganrif | 1.943 |
| Grantiau Allanol | 18.728 |
| Grant Atgyweirio Priffyrdd | 0.580 |
| Benthyca Di-gefnogaeth CRT | 1.000 |
| Cyllid CRT | 9.450 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **38.000** |

- I benderfynu pa rai o'r prosiectau newydd i'w cefnogi (gweler Atodiad 3);
- I benderfynu p'un ai i ryddhau cyfanswm o £1.510m o gyllid heb ei ddefnyddio ar gyfer Gofal Ychwanegol Seiriol (£1.0m) (Atodiad 1 – paragraff 2.8) a Safleoedd Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr (£0.510m) (Atodiad 1 – paragraff 2.9) yn ôl i'r Gronfa Gyfalaf Gyffredinol i gyllido'r cynlluniau newydd;
- I benderfynu pa geisiadau Buddsoddi i Arbed i'w cefnogi;
- I benderfynu ar y lefel cyllid a neilltuir ar gyfer cynnal ffyrdd (Atodiad 1 - paragraff 2.7).

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Bydd nifer o gynlluniau ychwanegol yn cael eu hystyried yn y rhaglen gyfalaf gyda'r prif ffactor o gyllid yn fforddiadwyedd a gwneud y mwyaf o gyllid grant allanol. Nid yw'r rhaglen gyfalaf arfaethedig a'r cynlluniau Cyfalaf ychwanegol os cânt eu cefnogi, yn ymrwymo'r Cyngor i lefel o fenthyca sy'n cynyddu'r ddarpariaeth isafswm refeniw neu daliadau llog i lefel na ellir ei fforddio.

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith gynnig y gyllideb cyfalaf.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

d/b

**DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Sylwada wedi eu cynnwys yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hon |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Sylwada wedi eu cynnwys yn yr adroddiad |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |

**E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adroddiad ar Gyllideb Gyfalaf 2019/20
Atodiad 2 – Cyllideb Gyfalaf Arfaethedig 2019/20
Atodiad 3 – Cynlluniau Cyfalaf Newydd 2019/20

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Adroddiad Strategaeth Gyfalaf – Pwyllgor Gwaith 30 Hydref 2017

Cyllideb Gyfalaf 2018/19 – Cyngor Llawn 28 Chwefror 2018

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r gyllideb cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2019/20 yn seiliedig ar y strategaeth gyfalaf. Mae'r strategaeth yn amlinellu y byddai'r rhaglen gyfalaf arfaethedig yn seiliedig ar y 7 prif ffynhonnell cyllido:-

- Grant Cyfalaf Cyffredinol;
- Benthyca â Chefnogaeth
- Derbyniadau Cyfalaf;
- Benthyca Di-gefnogaeth ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif;
- Grantiau Cyfalaf Penodol (yn cynnwys Grant Ysgolion yr 21ain Ganrif);
- Cronfeydd Wrth Gefn Cyfalaf;
- Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau'r Cyfrif Refeniw Tai.

## 2. CYLLIDEB ARFAETHEDIG AR GYFER 2019/20

**2.1.** Cyhoeddwyd fersiwn drafft setliad cyllidol Llywodraeth Leol ar gyfer 2019/20 gan Lywodraeth Cymru ar 9 Hydref 2018. Mae'r setliad gyllidol yn nodi dwy elfen o gyllid cyfalaf sef y Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r lefel o Fenthyca â Chefnogaeth heb ei neilltuo y mae Llywodraeth Cymru yn ei gyllido drwy'r elfen cyllid cyfalaf o'r Asesiad Gwariant Safonol. Roedd y setliad yn gosod y Grant Cyfalaf Cyffredinol ar £1.327m a'r Benthyca â Chefnogaeth heb ei neilltuo ar £2.182m. Yn ychwanegol at hynny, bydd y Cyngor hefyd yn derbyn £2.660m ar ffurf Lwfans Gwaith Trwsio Mawr gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cyllido'n rhannol y gwaith cyfalaf sylweddol a wneir ar stoc tai'r Cyngor.

**2.2.** Dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer iawn o dir ac adeiladau dros ben y Cyngor wedi eu gwerthu gyda'r arian yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gwaith o adnewyddu mân-ddaliadau'r Cyngor neu er mwyn cyllido gwariant cyfalaf. Mae gan y Cyngor nifer fawr o hen safleoedd ysgol yn ei feddiant yn dilyn agor Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan a bydd safleoedd pellach ar gael pan fydd Ysgol Santes Dwynwen yn agor yn 2019. Fodd bynnag, mae unrhyw arian a geir yn sgil gwerthu'r safleoedd hyn eisoes wedi'i glustnodi fel cyfraniad tuag at gost adeiladu'r ysgolion newydd ac, felly, ni fydd ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf gyffredinol. Felly, mae'r swm sydd ar gael o dderbyniadau cyfalaf er mwyn cyllido gwariant cyfalaf newydd wedi gostwng llawer ers y blynyddoedd diwethaf.

**2.3.** Mae'r cyllid ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif Band A wedi'i gyllido drwy 50% o gyllid gan Lywodraeth Cymru a 50% gan y Cyngor drwy fenthyca di-gefnogaeth. Yna, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu dwy ran o dair o'u cyllid ar ffurf grant penodol gyda'r gweddill yn fenthyciad â chefnogaeth. Mae'r cyllid sydd ar gael drwy'r tair elfen yn ddibynnol ar y gwariant a gall newid gan ddibynnu ar y cynnydd a wneir ar bob cynllun. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod gwariant digonol yn digwydd er mwyn sicrhau y bydd modd i'r holl grant gael ei dynnu i lawr. Yn seiliedig ar y proffil gwariant diweddaraf, rhagwelir y bydd y cyllid sydd ar gael ar gyfer 2019/20 fel a ganlyn:- Cyllid Grant Llywodraeth Cymru - £3.773m, Benthyca â Chefnogaeth - £1.943m a Benthyca Di-gefnogaeth - £1.847m.

**2.4.** Mae rhai prosiectau un ai wedi eu cyllido'n rhannol neu'n llawn gan grantiau allanol. Gall y rhain fod yn grantiau gan Lywodraeth Cymru, grantiau Ewropeaidd neu'n gyfraniadau gan gyrff allanol. Bydd y gwariant ar bob prosiect yn penderfynu ar lefel y cyllid grant a dderbynnir. Yn seiliedig ar y cynlluniau ar gyfer y prosiectau presennol, rhagwelir y bydd y Cyngor yn gallu tynnu i lawr £18.728m o gyllid allanol.

**2.5.** Mae'r Pwyllgor Gwaith yn y blynyddoedd blaenorol wedi cymeradwyo rhyddhau £0.250m o'r gronfa arian wrth gefn cyfalaf i gyllido prosiectau Buddsoddi i Arbed bach. Mae angen gwneud penderfyniad p'un ai i barhau i ryddhau'r cyllid hwn, ac, os felly, faint o gyllid y dylid ei ryddhau a ffynhonnell y cyllid hwnnw.

**2.6** Yn ychwanegol at y Lwfans Gwaith Trwsio Mawr, mae gweddill y rhaglen gyfalaf CRT wedi'i gyllido o'r gwarged refeniw blynyddol sy'n cael ei greu gan y CRT a'r defnydd o arian wrth gefn cyffredinol y CRT. Mae gan y CRT gyfleuster benthyca ei hun hefyd sydd wedi'i gapio gan Lywodraeth Cymru. Ar gyfer 2019/20, cynigir defnyddio £9.450m o'r gwarged yn ystod y flwyddyn ac arian wrth gefn cyffredinol y CRT er mwyn ariannu mwyafrif y gwariant cyfalaf gyda'r gweddill o £1.0m yn cael ei gyllido drwy fenthyca ychwanegol.

**2.7** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid grant ychwanegol o £20m ar gyfer 2019/20 ar gyfer ail-wynebu priffyrdd. Dyraniad Ynys Môn o'r cyllid ychwanegol hwn fydd tua £0.580m. Yr isafswm presennol o fuddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i gwrdd â'r contract yn 2019/20 yw £0.779m ond mae'r cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn datgan bod angen gwario dros £2m y flwyddyn ar wynebu ffyrdd er mwyn cynnal y ffyrdd i'w safon bresennol. Y Pwyllgor Gwaith fydd yn penderfynu p'un ai a fydd y grant hwn yn rhan o'r cyllid ar gyfer yr isafswm buddsoddiad cyfalaf ynteu a fydd y grant yn ychwanegol at yr isafswm buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen, a fyddai'n golygu bod cyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer cynnal ffyrdd yn £1.359m. Mae'r gyllideb gyfalaf arfaethedig (Atodiad 2) yn tybio'r olaf.

**2.8** Mewn cyllidebau cyfalaf blaenorol, neilltuwyd £1.0m o gyllid cyfalaf tuag at y prosiect Cartref Gofal Ychwanegol Seiriol. Fodd bynnag, gan y bydd y prosiect hwn bellach yn cael ei gyllido'n llwyr drwy'r CRT, gellir bellach ryddhau'r £1m a neilltuwyd i gyllido prosiectau cyfalaf eraill. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith a yw'n dymuno rhyddhau'r cyllid hwn.

**2.9** Yn Rhaglen Gyfalaf 2018/19, neilltuwyd £1.858m o gyllid tuag at safleoedd parhaol a dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Roedd hyn i'w gyllido gan £0.450m o grant allanol (ar gyfer y safle parhaol) a £1.408m o adnoddau y Cyngor ei hun. Mae gwariant cynlluniedig o £0.120m yn 2018/19 ar y cynllun, sy'n gadael £1.288m o gyllid y Cyngor heb ei ddefnyddio i'w ddwyn ymlaen i 2019/20. Gan fod caniatâd cynllunio bellach wedi'i dderbyn ar gyfer y safle dro dro mae £0.778m wedi'i gynnwys yn y rhaglen gyfalaf ddrafft 2019/20 ar gyfer cwblhau'r prosiect hwn. Nid yw'r cynlluniau ar gyfer y safle parhol wedi symud ymlaen mor gyflym, nid oes caniatâd cynllunio wedi'i roi hyd yma ac mae angen gwneud gwaith pellach ar hyfywedd ariannol y prosiect. Felly, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried rhyddhau'r swm sy'n weddill o £0.51m i allu ei ddefnyddio i gyllido prosiectau cyfalaf eraill yn 2019/20. Unwaith y mae'r cynllun wedi'i gwblhau a'r costau wedi'u cytuno, byddai cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu ar gyfer y prosiect yn y dyfodol.

## 3. RHAGLEN GYFALAF CYNLLUNEDIG AR GYFER 2019/20

**3.1.** Bydd strategaeth gyfalaf ar gyfer 2019/20 yn ail-gadarnhau'r strategaethau cyfalaf blaenorol oedd yn cynnwys yr egwyddorion y mae rhaglen gyfalaf 2019/20 yn seiliedig arnynt. Mae'r egwyddorion fel a ganlyn:-

- Bod swm yn cael ei neilltuo yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i gyllido'r gwaith atgyweirio sylweddol mewn perthynas ag offer TG, cerbydau ac adeiladau presennol y Cyngor neu i brynu rhai newydd yn eu lle;
- Bod swm yn cael ei neilltuo yn y rhaglen gyfalaf er mwyn bodloni gofyniad statudol y Cyngor i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl;
- Bod rhyw lefel o waith ail-wynebu ffyrdd yn cael ei gyllido o'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a gaiff ei neilltuo yn ddibynnol ar y cyllid sydd ei angen er mwyn cyflawni unrhyw warantau isafswm gwerth contract, lefel y cyllid sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod;
- Bydd prosiectau sydd angen lefel o gyllid cyfatebol fel y gellir tynnu cyllid grant i lawr yn cael eu hasesu fesul achos gan y Pwyllgor Gwaith. Bydd y penderfyniad i glustnodi cyllid ai peidio yn ddibynnol ar y prosiect, sut mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r gymhareb o gyllid Cyngor i gyllid grant;
- Bod rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael ei hystyried ar wahân i weddill rhaglen gyfalaf gyffredinol y Cyngor.

**3.2.** Yn seiliedig ar yr egwyddorion uchod a'r cyllid sydd ar gael, mae'r rhaglen gyfalaf graidd ar gyfer 2018/19 i'w gweld yn Nhabl 1 isod. Mae manylion llawn wedi'u hatodi fel Atodiad 2.

**Tabl 1**

**Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig**

| **Cynllun** | **Cyllideb 2019/20 £'m** | **Grantiau Allanol £'m** | **Cyllid y Cyngor £'m** |
|---|---|---|---|
| Porth Ymwelwyr Ynys Cybi | 1.000 | 0.950 | 0.050 |
| Lôn Newydd Wylfa | 7.000 | 7.000 | 0.000 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi a Llangefni | 3.400 | 3.330 | 0.070 |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd | 0.900 | 0.765 | 0.135 |
| Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | 0.779 | 0.000 | 0.779 |
| Neuadd y Farchnad Caergybi | 0.350 | 0.250 | 0.100 |
| Ysgol Santes Dwynwen | 0.085 | 0.000 | 0.085 |
| Ysgol Rhyd y Llan | 0.037 | 0.000 | 0.037 |
| Estyniad - Ysgol Y Graig | 3.120 | 1.185 | 1.935 |
| Ysgol Bro Llangefni | 3.521 | 2.324 | 1.197 |
| Ysgol Biwmares, Llandegfan a Llangoed | 0.400 | 0.132 | 0.268 |
| Ysgol Syr Thomas Jones ac Ysgolion Cynradd Cyfagos | 0.400 | 0.132 | 0.268 |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 0.750 | 0.000 | 0.750 |
| Mynediad i'r Anabl - Adeiladau Addysg | 0.300 | 0.000 | 0.300 |
| Cyfnewid Cerbydau | 0.150 | 0.000 | 0.150 |
| Isadeiledd TG | 0.439 | 0.000 | 0.439 |
| Adnewyddu Ysgolion | 0.500 | 0.000 | 0.500 |
| Adnewyddu heb fod yn ysgolion | 0.400 | 0.000 | 0.400 |
| Ail-wynebu Priffyrdd | 1.359 | 0.580 | 0.779 |
| Gwariant Cyfalaf CRT / Datblygiadau Newydd | 13.110 | 2.660 | 10.450 |
| **CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF** | **38.000** | **19.308** | **18.692** |
| | | | |
| **Cyllidwyd gan:** | | | |
| Grantiau Allannol | 18.728 | 18.728 | |
| Cyllid Ddygwyd Ymlaen o 2018/19 | 1.099 | | 1.099 |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1.327 | | 1.327 |
| Benthyca a Chefnogaeth | 2.026 | | 2.026 |
| Grant Adnewyddu Priffyrdd | 0.580 | 0.580 | |
| Derbyniadau Cyfalaf | - | | - |
| Benthyca Di-gefnogaeth – Ysgolion 21 Ganrif | 1.847 | | 1.847 |
| Benthyca â Chefnogaeth - Ysgolion 21 Ganrif | 1.943 | | 1.943 |
| CRT Benthyca Di-gefnogaeth | 1.000 | | 1.000 |
| Refeniw / Arian Wrth Gefn CRT | 9.450 | | 9.450 |
| **CYFANSWM CYLLID** | **38.000** | **19.308** | **18.692** |

**3.3** Mae 10 cais Cyfalaf newydd wedi eu cyflwyno i'w cynnwys yn Rhaglen Gyfalaf 2019/20. Mae'r rhain yn dod i £1.746m, a byddai £0.949m ohono'n cael ei gyllido'n allanol, gyda'r swm sy'n weddill o £0.797m yn cael ei gyllido o adnoddau'r Cyngor. Gellid cyllido pob un o'r 10 cais o'r £1.510m y gofynnwyd i'w ail-ddyrannu i'r gronfa gyffredinol, fel yn 2.8 a 2.9 o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, os teimlir na ellir cefnogi un neu fwy o'r ceisiadau, gellir neilltuo'r cyllid hwn ar gyfer cynlluniau cyfalaf yn y dyfodol. Mae rhestr o'r cynlluniau cyfalaf newydd i'w gweld yn Nhabl 2 isod. Mae'r ceisiadau newydd hyn wedi'u sgorio gan swyddogion yn erbyn meini prawf sgorio a bennwyd ymlaen llaw, ac mae hyn, ynghyd â manylion llawn y cynlluniau, wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

**Tabl 2**

**Cynlluniau Newydd ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf**

| Cynllun | Cyllideb 2019/20 £'m | Grantiau Allannol £'m | Cyllid y Cyngor £'m |
|---|---|---|---|
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos yn y Meysydd Parcio | 0.030 | 0.000 | 0.030 |
| Adnewyddu Plas Mona | 0.035 | 0.000 | 0.035 |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 0.085 | 0.000 | 0.085 |
| Uwchraddio Offer Stafelloedd Cyfarfod | 0.025 | 0.000 | 0.025 |
| Diogelwch Ysgolion | 0.200 | 0.000 | 0.200 |
| Cyllid os bydd cynnig yn hwyr gan Llywodraeth Cymru ynglŷn â Gwaith Traenio | 0.200 | 0.170 | 0.030 |
| Ynys Môn Cysylltiedig (AC) i'r cyfnod pontio PSBA | 0.060 | 0.000 | 0.060 |
| Astudiaethau Traenio a Gwaith Dylunio | 0.166 | 0.141 | 0.025 |
| Amddiffynfa rhag llifogydd Traeth Coch | 0.850 | 0.638 | 0.212 |
| Datblygu Economaidd - Ceisio Cyllid Cyfatebol | 0.095 | 0.000 | 0.095 |
| **CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF** | **1.746** | **0.949** | **0.797** |
| | | | |
| **Cyllidwyd Gan :** | | | |
| Grantiau Allannol | 0.949 | | |
| Arian wedi'i ail-ddyrannu | 0.797 | | |
| **CYFANSWM CYLLID** | **1.746** | | |

**3.4** Mae'r meini prawf sgorio'n asesu :-

- 'sut mae'r cynllun yn cyfrannu tuag at Gynllun y Cyngor 2017-22';
- 'ydi'r cynllun yn derbyn unrhyw gyllid allanol';
- 'oes gan y cynllun unrhyw arbedion refeniw/ cynnydd mewn incwm refeniw';
- 'ydi'r cynllun yn lliniaru unrhyw risg gorfforaethol'.

Teimlir bod angen i'r anghenion sgorio gael eu pwysoli er mwyn ystyried pwysigrwydd Cynllun y Cyngor, felly, caiff y maen prawf hwn ei sgorio allan o 20, a'r tri arall eu sgorio allan o 10, sy'n rhoi cyfanswm sgôr o 50.

## 4. PROSIECTAU BUDDSODDI I ARBED

**4.1.** Yn y blynyddoedd blaenorol, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ryddhau £0.250m o'r Gronfa Cyfalaf wrth Gefn a Glustnodwyd i gyllido prosiectau Buddsoddi i Arbed bach. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried p'un ai a yw am barhau i wneud hyn yn 2019/20 ai peidio, ac, os felly, beth fydd y gyllideb. Gwahoddwyd gwasanaethau i ymgeisio am y cyllid, a derbyniwyd dau gais oedd yn dod i gyfanswm o £0.400m. Ynghyd â'r 10 cais cyfalaf newydd y cyfeiriwyd atynt yn adran 3.3. o'r adroddiad hwn, gellir cyllido ddau gais yma o'r £1.510m y gofynnwyd i'w ailddyrannu'n ôl i'r gronfa gyffredinol fel y soniwyd yn adran 2.8 a 2.9 o'r adroddiad hwn. Derbyniwyd y ddau gais canlynol: -

**4.2. Effeithlonrwydd Ynni mewn Adeiladau Corfforaethol**

Mabwysiadwyd y Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni 2017-2022 gan y Pwyllgor Gwaith ym Mehefin 2017. Nod y strategaeth yw lleihau defnydd ynni o 15% erbyn 2022. Roedd gwariant blynyddol y Cyngor ar ynni a dŵr dros £2.1m yn 2015/16 ac mae cost tanwydd yn parhau i godi'n uwch na chyfradd chwyddiant.

Mae cyllid ar gyfer benthyciadau ar gael ac mae'r Cyngor wedi gwneud defnydd o'r cyllid hwn ond, yr un modd ag unrhyw fenthyciad, mae'n rhaid ei dalu'n ôl ac, o ganlyniad, nid yw'r arbedion yn cael eu gwireddu am nifer o flynyddoedd. Byddai defnyddio ein cyllid ein hunain yn rhyddhau arbedion refeniw ar unwaith. Mae'r gwasanaeth, felly, wedi gwneud cais am £0.250m, fyddai yn rhyddhau tua £0.030m o arbedion y flwyddyn. Petai swm llai yn cael ei ddyfarnu, byddai nifer y prosiectau y gellir ymgymryd â nhw yn llai neu'n cael eu hariannu drwy fenthyciadau.

Cymeradwywyd cais tebyg yng Nghyllideb Gyfalaf 2018/19 a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn Ionawr 2019.

**4.3. Prynu Cerbydau Newydd – 4 Cerbyd LPG a 4 Cerbyd Trydan.**

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor 8 cerbyd ar les tymor hir, a chais yw hwn i roi'r gorau i'r les a phrynu 4 cerbyd trydan newydd a 4 cerbyd LPG newydd.

Y gost flynyddol bresennol ar gyfer les yr 8 cerbyd yw £31,962 a'r gost flynyddol am danwydd yw £11,331, sy'n rhoi cyfanswm cost blynyddol o £43,294. I allu cymharu'n deg mae chwyddiant o 3% ar y costau hyn wedi'u defnyddio. Mae Tabl a) isod yn crynhoi'r costau hyn.

**Tabl a)**

| **Les Allannol** | | **£** | **£** |
|---|---|---|---|
| Cost Blynyddol (ffi) | | 31,962.24 | |
| Cost Cyfredol y Filltir (tanwydd) | 0.10 | | |
| Amcangyfrif Nifer o Filltiroedd (blynyddol) | 111,484.80 | | |
| Amcangyfrif o Gost Blynyddol Tanwydd | | 11,331.77 | |
| Cyfanswm Cost Les dros 10 mlynedd yn cynnwys 3% chwyddiant | | | 366,411.26 |
| Cyfanswm Cost Tanwydd dros 10 mlynedd yn cynnwys 3% chwyddiant | | | 129,906.02 |
| **Cyfanswm y Gost** | | **43,294.01** | **496,317.28** |

Amcangyfrifir bod cerbyd LPG yn costio £12,500 a chost car trydan yw £25,000. Byddai'r gost o brynu 4 o bob un yn dod i £150,000. Y cyfanswm cost blynyddol ar gyfer rhedeg yr 8 cerbyd fyddai £13,342, sydd £29,952 yn rhatach y flwyddyn na'r cerbyd presennol sydd ar les yn allanol. I allu cymharu'n deg, mae chwyddiant o 3% ar y costau hyn wedi'u defnyddio. Mae Tabl b) isod yn crynhoi'r costau hyn.

**Tabl b)**

| **Prynu 8 Cerbyn Newydd** | **LPG(4)** | **Trydan (4)** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** |
| Cost Cyfredol y filltir (tanwydd) | 0.09 | 0.035 | |
| Cost Cyfredol y filltir (atgyweirio a chynnal a chadw) | 0.10 | - | |
| Cyfanswm cost cyfredol y filltir | 0.19 | 0.035 | |
| Amcangyfrif nifer o filltiroedd (blynyddol) | 55,742.00 | 55,742.000 | 111,484.00 |
| Newid Teiars (blynyddol) | - | 800.000 | 800.00 |
| **Cost** | **10,590.98** | **2,750.97** | **13,341.95** |
| Cost Prynu | 50,000.00 | 100,000.00 | 150,000.00 |
| Newid Teiars dros 10 mlynedd yn cynnwys 3% chwyddiant | - | 9,171.10 | 9,171.10 |
| Cyfanswm Cost dros 10 mlynedd yn cynnwys 3% chwyddiant | 121,414.59 | 22,365.85 | 143,780.43 |
| **Cyfanswm Cost** | **171,414.59** | **131,536.95** | **302,951.54** |

I wneud cymhariaeth deg, mae angen amcangyfrif y cyfnod y disgwylir i'r cerbydau newydd para. I'r diben hwn, defnyddir y dybiaeth y bydd disgwyl i'r cerbydau hyn bara am 10 mlynedd. Mae'n anodd amcangyfrif yr union nifer o flynyddoedd y bydd car trydan yn para, gan eu bod yn gymharol newydd, ond mae rhai gwneuthurwyr yn cynnig gwarant o 8 mlynedd, sy'n awgrymu bod 10 mlynedd yn amcangyfrif darbodus. Hefyd, mae gan y Cyngor gerbydau LPG sydd bellach yn 12 oed, sy'n awgrymu eto bod 10 mlynedd yn amcangyfrif darbodus. Yn seiliedig ar yr amcangyfrif hwn, gweler Tabl c) isod, sy'n dangos, dros gyfnod o 10 mlynedd, y bydd arbediad o £193k os mabwysiadir y cynllun buddsoddi i arbed hwn.

**Tabl c)**

| **Crynodeb (dros 10 mlynedd)** | **£** |
|---|---|
| Les Allanol | 496,317.28 |
| Prynu 4 cerbyd LPG a 4 cerbyd Trydan | 302,951.54 |
| **Arbediad** | **193,365.75** |

**ATODIAD 2**

# RHAGLEN GYFALAF ARFAETHEDIG 2019/20

| Cynllun | Categori | Cyllideb 2019/20 £'000 | Cyllidwyd gan | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Grantiau Allanol<br>£'000 | Cyllid D/Y o 2018/19<br>£ | Grant Cyffredinol Cyfalaf<br>£ | Benthyca â Chefnogaeth<br>£ | Grant Adnewyddu Priffyrdd<br>£ | Derbyniadau Cyfalaf<br>£ | Benthyca Di-gefnogaeth Ysgolion 21 Ganrif<br>£ | Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion 21 Ganrif<br>£ | Benthyca Di-gefnogaeth CRT<br>£ | CRT Refeniw / Arian Wrth Gefn<br>£ |
| Porth Ymwelwyr Ynys Cybi | Cynlluniau Ymrwymedig D/Y | 1,000 | 950 | 50 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Lôn Newydd Wylfa | Cynlluniau Ymrwymedig D/Y | 7,000 | 7,000 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Isadeiledd Strategol Caergybi a Llangefni | Cynlluniau Ymrwymedig D/Y | 3,400 | 3,330 | 70 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd | Cynlluniau Ymrwymedig D/Y | 900 | 765 | 100 | - | 35 | - | - | - | - | - | - |
| Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | Cynlluniau Ymrwymedig D/Y | 779 | - | 779 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Neuadd y Farchnad Caergybi | Cynlluniau Ymrwymedig D/Y | 350 | 250 | 100 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **CYFANSWM CYNLLUNIAU YMRWYMEDIG D/Y** | | **13,429** | **12,295** | **1,099** | **-** | **35** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |

| Cynllun | Categori | Cyllideb 2019/20 £’000 | Cyllidwyd gan | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Grantiau Allanol £’000 | Cyllid D/Y o 2018/19 £ | Grant Cyffredinol Cyfalaf £ | Benthyca â Chefnogaeth £ | Grant Adnewyddu Priffyrdd £ | Derbyniadau Cyfalaf £ | Benthyca Di-gefnogaeth Ysgolion 21 Ganrif £ | Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion 21 Ganrif £ | Benthyca Di-gefnogaeth CRT £ | CRT Refeniw / Arian Wrth Gefn £ |
| Cyfnewid Cerbydau | Buddsoddi mewn asedau presennol | 150 | - | - | 150 | - | - | - | - | - | - | - |
| Isadeiledd TG | Buddsoddi mewn asedau presennol | 439 | - | - | 427 | 12 | - | - | - | - | - | - |
| Adnewyddu Ysgolion | Buddsoddi mewn asedau presennol | 500 | - | - | - | 500 | - | - | - | - | - | - |
| Adnewyddu heb fod yn ysgolion | Buddsoddi mewn asedau presennol | 400 | - | - | - | 400 | - | - | - | - | - | - |
| Mynediad i'r Anabl- Adeiladau Addysg | Buddsoddi mewn asedau presennol | 300 | - | - | - | 300 | - | - | - | - | - | - |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Buddsoddi mewn asedau presennol | 750 | - | - | 750 | - | - | - | - | - | - | - |
| **CYFANSWM BUDDSODDI MEWN ASEDAU PRESENNOL** | | **2,539** | **-** | **-** | **1,327** | **1,212** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |

| Cynllun | Categori | Cyllideb 2019/20 £’000 | Cyllidwyd gan | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Grantiau Allanol<br>£’000 | Cyllid D/Y o 2018/19<br>£ | Grant Cyffredinol Cyfalaf<br>£ | Benthyca â Chefnogaeth<br>£ | Grant Adnewyddu Priffyrdd<br>£ | Derbyniadau Cyfalaf<br>£ | Benthyca Di-gefnogaeth Ysgolion 21 Ganrif<br>£ | Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion 21 Ganrif<br>£ | Benthyca Di-gefnogaeth CRT<br>£ | CRT Refeniw / Arian Wrth Gefn<br>£ |
| Adnewyddu Priffyrdd | Adnewyddu Priffyrdd | 1,359 | - | - | - | 779 | 580 | - | - | - | - | - |
| **CYFANSWM AIL-WYNEBU PRIFFYRDD** | | **1,359** | **-** | **-** | **-** | **779** | **580** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Ysgol Santes Dwynwen | Ysgolion 21 Ganrif | 85 | - | - | - | - | - | - | 85 | - | - | - |
| Ysgol Rhyd y Llan | Ysgolion 21 Ganrif | 37 | - | - | - | - | - | - | 37 | - | - | - |
| Estyniad Ysgol y Graig | Ysgolion 21 Ganrif | 3,120 | 1,185 | - | - | - | - | - | 1,325 | 610 | - | - |
| Ysgol Bro Llangefni | Ysgolion 21 Ganrif | 3,521 | 2,324 | - | - | - | - | - | - | 1,197 | - | - |
| Ysgol Biwmaris, Llandegfan a Llangoed | Ysgolion 21 Ganrif | 400 | 132 | - | - | - | - | - | 200 | 68 | - | - |
| Ysgol Syr Thomas Jones Ac Ysgolion Cynradd Cyfagos | Ysgolion 21 Ganrif | 400 | 132 | - | - | - | - | - | 200 | 68 | - | - |
| **CYFANSWM YSGOLION 21 GANRIF** | | **7,563** | **3,773** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **1,847** | **1,943** | **-** | **-** |
| Adeiladu Tai Cyngor Newydd | CRT | 6,891 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 6,891 |

| Cynllun | Categori | Cyllideb 2019/20 £'000 | Cyllidwyd gan | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Grantiau Allanol £'000** | **Cyllid D/Y o 2018/19 £** | **Grant Cyffredinol Cyfalaf £** | **Benthyca â Chefnogaeth £** | **Grant Adnewyddu Priffyrdd £** | **Derbyniadau Cyfalaf £** | **Benthyca Di-gefnogaeth Ysgolion 21 Ganrif £** | **Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion 21 Ganrif £** | **Benthyca Di-gefnogaeth CRT £** | **CRT Refeniw / Arian Wrth Gefn £** |
| Gwaith Adnewyddu a Gynlluniwyd a Gwelliannau SATC | CRT | 4,496 | 2,660 | - | - | - | - | - | - | - | 1,000 | 836 |
| Datblygiadau Newydd/ad-brynu hen eiddo hawl i brynu | CRT | 1,723 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1,723 |
| **CYFANSWM CRT** | | **13,110** | **2,660** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **1,000** | **9,450** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM RHAGLEN CYFALAF 2019/20** | | **38,000** | **18,728** | **1,099** | **1,327** | **2,026** | **580** | **-** | **1,847** | **1,943** | **1,000** | **9,450** |

**ATODIAD 3**

## CYNLLUNIAU NEWYDD AR GYFER RHAGLEN GYFALAF 2019/20

| Cynllun | Disgrifiad | Cyllideb 2018/19 £’000 | Cyllid | | Sgorio yn erbyn y meini prawf | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Grantiau Allanol £’000 | Cyllid a Ail-ddyrannwyd £’000 | Cynllun y Cyngor | Sgorio (20) | Grant Allanol | Sgorio (10) | Arbediad Refeniw | Sgorio (10) | Risg Gorfforaethol a Liniarwyd | Sgorio (10) | Cyfanswm sgôr (allan o 50) |
| Meysydd Parcio | Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos | 30 | 0 | 30 | Nid yw’n cwrdd ag unrhyw un o’r amcanion | 0 | Dim Cyllid Allanol | 0 | Bydd taliadau digyffwrdd yn sicrhau nad oes costau casglu nac amser yn cael ei dreulio’n cyfri’r arian. Bydd yn bosibl gweld statws y peiriannau o swyddfa’r Cyngor i sicrhau eu bod yn gweithio. Bydd hyn yn golygu na fydd angen i swyddogion fynd allan i archwilio’r peiriannau i sicrhau eu bod yn gweithio. | 5 | Nid yw’n lliniaru risg gorfforaethol. | 0 | 5 |
| Adnewyddu Plas Mona | • Mynedfa newydd i’r ardal y tu allan o’r ystafell fwyta<br>• Creu ardal y tu allan sy’n ddiogel ac yn addas i ddefnyddwyr yng nghefn yr adeilad (ar hyn o bryd | 35 | 0 | 35 | Amcan 2 | 10 | Dim Cyllid Allanol | 0 | Lleihau gwaith Adnewyddu a Chynnal a Chadw. | 3 | Materion posibl o ran lles tenantiaid. Hefyd, cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. | 5 | 18 |

| Cynllun | Disgrifiad | Cyllideb 2018/19 £'000 | Cyllid | | Sgorio yn erbyn y meini prawf | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Grantiau Allanol £'000 | Cyllid a Ail-ddyrannwyd £'000 | Cynllun y Cyngor | Sgorio (20) | Grant Allanol | Sgorio (10) | Arbediad Refeniw | Sgorio (10) | Risg Gorfforaethol a Liniarwyd | Sgorio (10) | Cyfanswm sgôr (allan o 50) |
| | does dim seddau y tu allan i breswylwyr eu defnyddio) | | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Plas Crigyll | • Gwydrau dwbl ar yr holl ffenestri presennol<br>• Amnewid 25 o ddrysau mewnol<br>• Cyfleusterau cegin newydd ar gyfer dwy uned | 85 | 0 | 85 | Amcan 2 | 10 | Dim Cyllid Allanol | 0 | Lleihau gwaith Adnewyddu a Chynnal a Chadw. | 3 | Materion posibl o ran lles tenantiaid. | 3 | 16 |
| Uwchraddio cyfarpar yr Ystfalleodd Cyfarfodydd | Uwchraddio ystafelloedd cyfarfodydd gan osod sgrîn fawr yn lle'r taflunwyr a ffonau cynhadledd skype a tafluniad wifi o'r gliniaduron. | 25 | 0 | 25 | Dim cysylltiad union-gyrchol ag amcan ond mae TG yn rhan hanfodol o ddatblygiad y Cyngor. | 5 | Dim Cyllid Allanol | 0 | Bydd modd cynnal galwadau cynhadledd skype gan leihau angen i fynd i fynychu cyfarfodydd allanol. | 3 | Nid yw'n lliniaru risg corfforaethol. | 0 | 8 |
| Diogelwch Ysgolion | Cynllun i gyllido newidiadau angenrheidiol i sicrhau diogelwch plant ar fuarth yr ysgol ac yn yr ardaloedd lle daw plant ynghyd yn y pentrefi. | 200 | 0 | 200 | Amcan 1 | 7.5 | Dim Cyllid Allanol | 0 | Dim arbediad refeniw | 0 | Risg bod digwyddiad iechyd a diogelwch yn arwain at anaf difrifol, afiechyd neu farwolaeth. | 10 | 17.5 |

| Cynllun | Disgrifiad | Cyllideb 2018/19 £'000 | Cyllid | | Sgorio yn erbyn y meini prawf | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Grantiau Allanol £'000 | Cyllid a Ail-ddyrannwyd £'000 | Cynllun y Cyngor | Sgorio (20) | Grant Allanol | Sgorio (10) | Arbediad Refeniw | Sgorio (10) | Risg Gorfforaethol a Liniarwyd | Sgorio (10) | Cyfanswm sgôr (allan o 50) |
| Cyllid os bydd cynnig hwyr gan LlC ynghylch Gwaith Draenio | Mae'r llywodraeth wedi sefydlu 'cynlluniau lliniaru llifogydd ar raddfa fach' ar lefel cyllid grant o 85%. Defnyddir yr arian hwn fel arian cyfatebol i sicrhau grantiau allanol. | 200 | 170 | 30 | Amcan 3 | 7.5 | 85% o gyllid cyf-atebol ar gael | 8.5 | Bydd yn arwain at lai o lifogydd, felly'n lleihau costau refeniw os bydd llifogydd. | 3 | Risg o ran Asedau'r Cyngor ac Iechyd a Diogelwch. | 5 | 24 |
| Cyswllt Môn (AC) i brosiad PSBA | I amnewid cysylltedd yr hen rwydwaith a ddarparwyd gan Gyswllt Môn i gysylltedd PSBA | 60 | 0 | 60 | Dim cysylltiad union-gyrchol ag amcan, ond mae'n sail i'r 3 amcan. | 10 | Dim Cyllid Allanol | 0 | Rhagweld arbediad Refeniw o tua £20k y flwyddyn. | 7.5 | T2: Ein bod yn methu â chryfhau ein isadeiledd TGCh yn ddigonol. | 7.5 | 25 |
| Astudiaethau Draenio a Gwaith Dylunio | Yn sgil llifogydd ar 22/11/17, mae gwaith modelu draenio yn Llanfairpwll, Porthaethwy, Caergybi a'r Fali sydd wedi'i gymeradwyo gan LlC ar sail 85% o gyllid cyfatebol. | 166 | 141 | 25 | Amcan 3 | 7.5 | 85% o arian cyfatebol ar gael | 8.5 | Bydd yn arwain at lai o lifogydd felly'n lleihau costau refeniw os bydd llifogydd. | 3 | Risg o ran Asedau'r Cyngor ac Iechyd a Diogelwch | 5 | 24 |
| Amddiffyn rhag llifogydd yn Nhraeth Coch | Cynllun atal llifogydd yn Nhraeth Coch | 850 | 638 | 212 | Amcan 3 | 7.5 | 75% o gyllid cyf-atebol ar gael | 7.5 | Bydd yn arwain at lai o lifogydd felly'n lleihau costau refeniw | 3 | Risg o ran Asedau'r Cyngor ac Iechyd a Diogelwch | 5 | 23 |

| Cynllun | Disgrifiad | Cyllideb 2018/19 £'000 | Cyllid | | Sgorio yn erbyn y meini prawf | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Grantiau Allanol £'000 | Cyllid a Ail-ddyrannwyd £'000 | Cynllun y Cyngor | Sgorio (20) | Grant Allanol | Sgorio (10) | Arbediad Refeniw | Sgorio (10) | Risg Gorfforaethol a Liniarwyd | Sgorio (10) | Cyfanswm sgôr (allan o 50) |
| Datblygu Economaidd – Ceisio Cyllid Cyfatebol | Bydd y gronfa'n galluogi iCSYM nodi a datblygu nifer o brosiectau cyfalaf i gwrdd â heriau ac anghenion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol (lles) yn ogystal ag ymateb i gyfleoedd yn y dyfodol a allai godi yn sgil mewnfuddsoddiad a ragwelir gan y sector preifat. Os na sicrheir y cyllid allanol bydd unrhyw gostau a achosir hyd yma'n cael eu trosglwyddo i refeniw . | 95 | 0 | 95 | Amcan 1 & 3 | 15 | Mae'r Gwasanaeth wedi defnyddio cyllid cyfalaf tebyg yn flaenorol (£100k) i ddenu tua £16m o fudd-soddiad. Nid ydym yn gwybod yn union faint o gyllid allanol gallwn ei dderbyn ond gallai fod yn swm sylweddol | 9 | Gallai Isadeiledd Cyfalaf newydd arwain at incwm rhent ychwanegol. Gallai gwella amodau lleol er mwyn i fusnesau ffynnu hefyd arwain at gynnydd mewn ardrethi domestig. | 3 | YM 16 – Risg nad yw'r Cyngor yn gallu effeithio'n llwyddiannus ar brif gynlluniau (e.e. Ynys Ynni) i sicrhau bod dinasyddion Ynys Môn yn elwa.<br><br>YM17 – Risg nad yw isadeiledd yr Ynys yn cael ei ddatblygu i ddiwallu anghenion y cyhoedd, busnesau ayb. | 5 | 32 |